SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

HEDDLU GOGLEDD CYMRU

NORTH WALES POLICE

# COD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru

Gorffennaf 2024

# CYNNWYS


**1.** Cyflwyniad ..... 02

**2.** Fframwaith statudol ..... 02

**3.** Egwyddorion llywodraethu da ..... 05

**4.** EGWYDDOR A: ymddwyn hefo uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf at werthoedd moesegol, a pharchu rheol y gyfraith ..... 06

**5.** EGWYDDOR B: sicrhau didwylledd ac ymgysylltiad rhanddeiliaid cynhwysfawr ..... 10

**6.** EGWYDDOR C: diffinio canlyniadau o ran manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy ..... 13

**7.** EGWYDDOR D: penderfynu'r ymyriadau angenrheidiol i wneud y gorau o gyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd ..... 16

**8.** EGWYDDOR E: datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion o'i fewn ..... 19

**9.** EGWYDDOR F: rheoli risgiau a chyflawniad drwy reoli mewnol cadarn a rheoli ariannol cyhoeddus cryf ..... 23

**10.** EGWYDDOR G: gweithredu arferion da mewn tryloywder, adrodd, ac archwilio er mwyn cyflawni atebolrwydd effeithiol ..... 29

**11.** Adolygiad Blynyddol ..... 32

**12.** ATODIAD A – Tabl dogfennau strategol, polisïau, gweithdrefnau, dogfennau canllaw a dogfennau fframwaith ..... 33

# 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae llywodraethu ynghylch sut mae sefydliadau'n sicrhau eu bod yn gwneud y peth iawn, yn y ffordd iawn, i'r bobl iawn, mewn modd amserol, cynhwysfawr, agored ac atebol. Mae'n cynnwys y systemau, prosesau, diwylliant a gwerthoedd y cyfarwyddir a rheolir sefydliadau, a sut maent yn atebol i, yn ymgysylltu ac yn arwain eu cymunedau.

1.2 Bydd y Cod Llywodraethu Corfforaethol yn ceisio rhoi eglurder ar sut mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl yn llywodraethu eu sefydliadau, ar y cyd ac ar wahân, yn unol hefo'u swyddogaethau a chyfrifoldebau statudol. Mae'r Cod yn ffurfio rhan o'r Llawlyfr Llywodraethu a dylid ei ddarllen ar y cyd a'r Cynllun Caniatâd, Rheoliadau Ariannol a Gorchmynion Sefydlog Cytundebau.

1.3 Mae'r Cod yn seiliedig ar saith egwyddor greiddiol llywodraethu da fel yr amlinellwyd yn y Fframwaith Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol a gyhoeddwyd gan CIPFA / SOLACE yn 2016, a'i ategu gan Egwyddorion Bywyd Cyhoeddus Nolan. Mae'r Cod hwn yn defnyddio egwyddorion creiddiol llywodraethu fel y strwythur ar gyfer sefydlu'r fframwaith statudol a'r trefniadau lleol sydd mewn lle i'w cyflawni.

# 2. FFRAMWAITH STATUDOL

2.1 Mae'r fframwaith statudol yn amlinellu cyfrifoldebau, grymoedd a dyletswyddau Comisiynwyr Heddlu a Throsedd a Phrif Gwnstabliaid yn parhau i ddatblygu ac mae'n cynnwys:

- Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011
- Gorchymyn Protocol Plismona 2011, fel y'i diwygiwyd neu a ddyroddir o bryd i'w gilydd o dan y Ddeddf.
- Gofyniad Plismona Strategol 2015
- Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014
- Deddf Plismona a Throsedd 2017
- Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol Ddiwygiedig 2018 (a gyhoeddwyd o dan Adran 4A Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004)

2.2 Mae Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ('y Comisiynydd') a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru ('y Prif Gwnstabl') yn sefydledig mewn cyfraith fel Corfforaeth Undyn. Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, felly, yn cael eu galluogi drwy'r gyfraith i gyflogi staff a chynnal cronfeydd.

2.3 Mae atebolrwydd y cyhoedd ar gyfer cyflawni'r Heddlu yn cael ei roi yn nwylo'r Comisiynydd ar ran ei etholwyr. Mae'r Comisiynydd yn defnyddio ei fandad er mwyn gosod a siapio amcanion strategol yr Heddlu mewn ymgynghoriad hefo'r Prif Gwnstabl. Mae'r Comisiynydd yn atebol i'r etholwyr. Mae'r Prif Gwnstabl yn atebol i'r Comisiynydd. Mae Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn cadw llygad rheolaidd ar gyflawniad y Comisiynydd yn y cyd-destun hwnnw.

2.4 Dau gyfrifoldeb statudol cyffredinol y Comisiynydd ydy:

- Sicrhau cynnal a chadw gwasanaeth heddlu lleol effeithiol ac effeithlon ar gyfer Gogledd Cymru
- Dwyn i gyfrif y Prif Gwnstabl am arfer eu swyddogaethau a swyddogaethau unigolion o dan eu cyfarwyddyd a'u rheolaeth

2.5 Y Comisiynydd sy'n derbyn yr holl gyllid, gan gynnwys grant a phraesept y llywodraeth a ffynonellau incwm eraill sy'n berthnasol i blismona a lleihau troseddau, a rhaid i holl gyllid ar gyfer yr Heddlu ddod drwy'r Comisiynydd. Mae'r ffordd y dyrennir yr arian hwn yn fater i'r Comisiynydd mewn ymgynghoriad hefo'r Prif Gwnstabl neu yn unol hefo unrhyw amodau grant. Mae'r Prif Gwnstabl yn darparu cyngor ac argymhellion proffesiynol.

2.6 Mae gan y Comisiynydd hefyd rym a dyletswydd cyfreithiol:

- Gosod cyfeiriad ac amcanion strategol Heddlu Gogledd Cymru drwy'r Cynllun Heddlu a Throsedd
- Darparu'r cyswllt lleol rhwng yr Heddlu a chymunedau, gweithio i roi dyheadau cyfreithiol y cyhoedd ar waith
- Craffu, cynorthwyo a herio cyflawniad cyffredinol Heddlu Gogledd Cymru, gan gynnwys yn erbyn y blaenoriaethau a gytunwyd o fewn y Cynllun Heddlu a Throsedd
- Gosod y praesept ar gyfer ardal yr Heddlu
- Penderfynu'r gyllideb a dyrannu asedau a chronfeydd i'r Prif Gwnstabl
- Penodi ac, os oes angen, disodli'r Prif Gwnstabl.
- Monitro pob cwyn a wneir yn erbyn Swyddogion Heddlu a Staff yr Heddlu, wrth fod yn gyfrifol am gwynion yn erbyn y Prif Gwnstabl.

Mae gan y Comisiynydd gyfrifoldeb ehangach hefyd am ddiogelwch cymunedol, gwella cyfiawnder troseddol a chynorthwyo dioddefwyr yng Ngogledd Cymru. Mae grymoedd a dyletswyddau cyfreithiol y Comisiynydd wedi'u hamlinellu'n fwy manwl yng Ngorchymyn Protocol Plismona 2011 a chyfreithiau, gorchmynion, rheolau neu reoliadau eraill.

2.7 Mae'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am gynnal Heddwch y Brenin ac mae ganddynt gyfrifoldeb statudol am reoli, cyfarwyddo a chyflawni gwasanaethau plismona gweithredol a ddarperir gan yr Heddlu. Mae'r Prif Gwnstabl yn dal swydd o dan y Goron, ond fe'i penodir gan y Comisiynydd. Mae'r Prif Gwnstabl, felly, yn gyfrifol i'r cyhoedd ac yn atebol i'r Comisiynydd am:

- Arwain yr Heddlu mewn ffordd sy'n gyson hefo'r ardystiad a wneir gan holl swyddogion ar benodiad a sicrhau ei fod yn gweithredu'n deg
- Penodi a diswyddo Swyddogion a Staff yr Heddlu (ar ôl ymgynghori hefo'r Comisiynydd yn achos Swyddogion Heddlu uwchben rheng Prif Uwcharolygydd a rhai sy'n gyfatebol o ran Staff yr Heddlu)
- Cynorthwyo'r Comisiynydd wrth gyflawni'r strategaeth a'r amcanion a amlinellwyd yn y Cynllun Heddlu a Throsedd
- Cynorthwyo'r Comisiynydd wrth gynllunio cyllideb yr Heddlu
- Rhoi'r Comisiynydd hefo mynediad at wybodaeth, Swyddogion Heddlu a Staff yr Heddlu yn ôl yr angen
- Bod yn llais gweithredol plismona yn ardal yr Heddlu ac egluro camau gweithredol Swyddogion Heddlu a Staff yr Heddlu o dan ei reolaeth wrth y cyhoedd
- Rheoli holl gwynion o ran yr Heddlu, ei Swyddogion Heddlu a Staff yr Heddlu (oni bai o ran y Prif Gwnstabl), a sicrhau yr hysbysir y Comisiynydd o hyd mewn ffordd er mwyn galluogi'r Comisiynydd ryddhau ei rwymedigaethau statudol o ran cwynion mewn ffordd reolaidd, ystyrlon ac amserol
- Bod yn gyfrifol am reolaeth ariannol yr Heddlu o ddydd i ddydd o fewn fframwaith y dyraniad cyllideb a gytunwyd a lefelau awdurdodi a roddir gan y Comisiynydd

Mae grymoedd a dyletswyddau cyfreithiol y Prif Gwnstabl o ran y Comisiynydd wedi'u hamlinellu yng Ngorchymyn Protocol Plismona 2011 a chyfreithiau, gorchmynion, rheolau neu reoliadau eraill.

2.8 Mae annibyniaeth weithredol yr heddlu yn egwyddor hanfodol o blismona ym Mhrydain. Mae gofyn i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, felly, weithio hefo'i gilydd er mwyn diogelu annibyniaeth weithredol yr Heddlu, wrth sicrhau nad ydy'r Comisiynydd yn cael eu rhwystro wrth gyflawni'r rôl statudol.

2.9 Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am sicrhau bod eu busnes yn cael ei gynnal yn unol hefo'r gyfraith a'r safonau priodol a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, y cedwir cyfrif cywir ohono ac y caiff ei ddefnyddio'n effeithiol, yn effeithlon ac yn economaidd. Mae arnynt ddyletswydd hefyd i benderfynu ar sicrhau gwelliant parhaus yn y modd y caiff eu swyddogaethau eu harfer.

2.10 Wrth gyflawni eu cyfrifoldebau, mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am sefydlu trefniadau priodol ar gyfer llywodraethu, sy'n cynnwys sicrhau bod system reoli fewnol gadarn yn cael ei chynnal a bod trefniadau yn eu lle er mwyn rheoli risg.

2.11 Bydd y Cydbwyllgor Archwilio yn rhoi cyngor ac argymhelliad annibynnol i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ar ddigonolrwydd y fframweithiau llywodraethu a rheoli risg, yr amgylchfyd rheoli mewnol, ac adroddiadau ariannol.

# 3. EGWYDDORION LLYWODRAETHU DA

3.1 Bydd y Fframwaith Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol (CIPFA / SOLACE, 2016) yn nodi saith egwyddor llywodraethu da, sef:

*A* - *Ymddwyn hefo uniondeb a dangos ymrwymiad cryf at werthoedd moesegol a pharchu rheol y gyfraith*

*B* - *Sicrhau didwylledd ac ymgysylltiad rhanddeiliaid cynhwysfawr.*

*C* - *Diffinio canlyniadau o ran manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy*

*D* - *Penderfynu'r ymyriadau angenrheidiol er mwyn gwneud y gorau o gyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd.*

*E* - *Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion o'i fewn.*

*F* - *Rheoli risgiau a chyflawniad drwy reoli mewnol cadarn a rheoli ariannol cyhoeddus cryf.*

*G* - *Gweithredu arferion da mewn tryloywder, adrodd, ac archwilio er mwyn cyflawni atebolrwydd effeithiol.*

Mae'r ddwy egwyddor gyntaf yn sail i'r fframwaith cyfan ac ymhlyg yn y pum egwyddor arall.

3.2 Cyflwynwyd 7 Egwyddor Bywyd Cyhoeddus ( Egwyddorion Nolan) yn 1995 ac maent yn berthnasol i'r Comisiynydd, y Prif Gwnstabl a'u staff. Y rhain ydy:

**ANHUNANOLDEB**

Dylai deiliaid swydd gyhoeddus weithredu o ran budd y cyhoedd yn unig.

**UNIONDEB**

Dylai deiliaid swydd gyhoeddus osgoi gosod eu hunain o dan unrhyw rwymedigaeth i bobl neu sefydliadau a allai geisio eu dylanwadu'n amhriodol yn eu gwaith. Ni ddylent weithredu neu wneud penderfyniadau er mwyn cael manteision ariannol neu o bwys mawr iddynt eu hunain, eu teulu, neu eu ffrindiau. Rhaid iddynt ddatgan neu ddatrys unrhyw fuddiannau a chysylltiadau.

**GWRTHRYCHEDD**

Rhaid i ddeiliaid swydd gyhoeddus weithredu a chymryd penderfyniadau'n deg ac yn ôl tystiolaeth, gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau a heb wahaniaethu neu duedd.

### ATEBOLRWYDD

Mae deiliaid swydd gyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u gweithrediadau a rhaid iddynt blygu i'r craffu angenrheidiol er mwyn sicrhau hyn.

### DIDWYLLEDD

Dylai deiliaid swydd gyhoeddus weithredu a chymryd penderfyniadau mewn modd didwyll a thryloyw. Ni ddylai gwybodaeth gael ei chadw rhag y cyhoedd oni bai fod rhesymau clir a chyfreithlon am wneud hynny.

### GONESTRWYDD

Dylai deiliaid swydd gyhoeddus fod yn eirwir.

### ARWEINYDDIAETH

Dylai deiliaid swydd gyhoeddus ddangos yr egwyddorion hyn yn eu hymddygiad eu hunain. Dylent fynd ati i hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion yn gadarn a bod yn barod i herio ymddygiad gwael pryd bynnag mae'n digwydd.

3.4 Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi mabwysiadu egwyddorion llywodraethu da ac yn rhwymedig at Egwyddorion Nolan fel deiliaid swydd gyhoeddus. Mae'r Cod hwn, felly, yn disgrifio sut y gwnaiff y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl gyflawni eu cyfrifoldebau a llywodraethu eu sefydliadau, ar wahân ac ar y cyd, yn unol hefo'r egwyddorion hyn.

3.5 Mae gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl gyfrifoldeb i greu Datganiad Llywodraethu Blynyddol (AGS). Mae'r AGS yn adolygu effeithiolrwydd eu trefniadau llywodraethu, asesu'r graddau y maent wedi cydymffurfio hefo'r Cod hwn, ac yn nodi meysydd sydd angen gwelliant.

## 4. EGWYDDOR A: YMDDWYN HEFO UNIONDEB, GAN DDANGOS YMRWYMIAD CRYF AT WERTHOEDD MOESEGOL, A PHARCHU RHEOL Y GYFRAITH.

4.1 Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol nid yn unig am faint maent yn ei wario, ond hefyd am sut maent yn defnyddio'r adnoddau o dan eu stiwardiaeth. Mae hyn yn cynnwys atebolrwydd am allbynnau, yn gadarnhaol ac yn negyddol, ac am y canlyniadau maent wedi'u cyflawni. Yn ogystal, mae ganddynt gyfrifoldeb cyffredinol i wasanaethu budd y cyhoedd wrth lynu at ofynion deddfwriaeth a pholisïau'r llywodraeth. Mae'n hanfodol, ar y cyfan, y gallent ddangos priodoldeb eu gweithrediadau a chael mecanweithiau mewn lle er mwyn annog a gorfodi ymlyniad at werthoedd moesegol a pharchu rheol y gyfraith.

4.2 Ymddwyn hefo uniondeb a dangos ymrwymiad cryf at werthoedd moesegol

Mae trefniadau llywodraethu a gwneud penderfyniadau'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn seiliedig ar ddiwylliant moeseg, uniondeb a gweithredu er budd y cyhoedd. Gwelir a throsglwyddir hyn drwy nifer o godau, polisïau a gweithdrefnau sy'n amlinellu'r safonau ymddygiad ac ymddygiad personol sy'n ddisgwyliedig oddi wrth y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl a'u gweithwyr. Yn benodol, mae'r rhain yn cynnwys:

- Y Llw Swydd (a adwaenir hefyd fel y Datganiad Derbyn Swydd) a dyngir gan y Comisiynydd yn dilyn ei etholiad yn 2021.
- Y Cod Ymddygiad – CHTh a'r DCHTh sy'n amlinellu'r safonau ymddygiad sy'n ddisgwyliedig gan y Comisiynydd a'r Dirprwy Gomisiynydd.
- Y Cod Ymddygiad – Staff SCHTh sy'n amlinellu'r safonau ymddygiad sy'n ddisgwyliedig gan staff a gyflogir gan y Comisiynydd.
- Y Cod Moeseg, a grëwyd gan y Coleg Plismona yn 2014, sy'n amlinellu'r egwyddorion a'r safonau ymddygiad ac ymddygiad personol a ddisgwylir gan bawb mewn plismona. Mae'r egwyddorion yn seiliedig ar yr Egwyddorion Nolan a'r safonau sy'n deillio o Reoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2012 (i Swyddogion Heddlu a Chylchlythyr 54 ar y Cyd Cyngor Staff yr Heddlu (i Staff yr Heddlu). Mae gofyn hefyd i aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio, Bwrdd Gweithredol Strategol y Comisiynydd, Bwrdd Rheoli Strategol y Prif Gwnstabl a Byrddau strategol eraill ledled yr heddlu roi sylw dyledus i'r Cod Moeseg a glynu at ei egwyddorion.
- Y polisïau a gweithdrefnau gwrth-dwyll a llygredigaeth a fabwysiadwyd gan y Comisiynydd (Polisi Gwrth-Dwyll a Llygredigaeth SCHTh) a'r Prif Gwnstabl (Polisi Atal Llygredigaeth HGC) sy'n caniatáu iddynt reoli'r risg o dwyll a llygredigaeth o fewn eu sefydliadau priodol yn effeithiol. Mae'r polisïau a gweithdrefnau, sy'n ymgorffori gwerthoedd y Cod Moeseg, yn annog atal, yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer adrodd cyfrinachol a dienw / chwythu'r chwiban (drwy Safecall), hyrwyddo canfod a darparu llwybrau clir ar gyfer ymchwilio ac erlyn, lle bo'n berthnasol, o weithgareddau neu ymddygiad twyllodrus a / neu llwgr. Y Rheoliadau Ariannol a Gorchmynion Sefydlog Cytundebau hefyd yn atgyfnerthu polisïau a gweithdrefnau gwrth-dwyll ac atal llygredigaeth. Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl hefyd yn sicrhau fod SCHTh a'r Heddlu'n cyfranogi'n llawn yn y Fenter Dwyll Genedlaethol, ymarfer cyfateb data bob dwy flynedd sy'n cynorthwyo i ganfod ac atal twyll a gordaliadau o'r pwrs cyhoeddus ledled y DU.

- Y polisïau a'r gweithdrefnau a fabwysiadir gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl sy'n berthnasol i roddion, cildyrnau a lletygarwch sy'n rhoi fframwaith moesegol i weithwyr Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (SCHTh), Swyddogion Heddlu a Staff yr Heddlu er mwyn penderfynu ffiniau derbynioldeb o ran rhoddion, cildyrnau a lletygarwch. Mae cofrestrau rhoddion, cildyrnau a lletygarwch yn cael eu cynnal gan y SCHTh a'r Heddlu, ynghyd hefo cofrestrau holl fuddiannau a ddatgenir gan y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl, uwch bersonél eraill yn y ddau sefydliad, ac aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio. Mae'r cofrestrfeydd ar gael yn gyhoeddus ar wefan SCHTh (Rhestrau a Chofrestrfeydd SCHTh) a gwefan yr Heddlu (Rhestrau a Chofrestrfeydd SCHTh). Mae gofyn i aelodau o'r Panel Heddlu a Throsedd a'r Cydbwyllgor Archwilio ddatgan bodolaeth a natur unrhyw fuddiannau personol ar ddechrau bob cyfarfod.
- Y trefniadau mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi'u gosod ar gyfer trin cwynion a dysgu oddi wrth gwynion sy'n atgyfnerthu eu hymrwymiad i gynnal y safonau moesegol uchaf.

Mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am ymchwilio cwynion am y Prif Gwnstabl. Cofnodir cwynion yn unol hefo Deddf Diwygio'r Heddlu 2002 a Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011. Cyhoeddir ystadegau yn flynyddol ac yn chwarterol gan Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu. Mae Prif Weithredwr y Comisiynydd yn gyfrifol am ymchwilio cwynion am weithwyr SCHTh ac Ymwelwyr Annibynnol Dalfeydd. Ymdrinnir hefo cwynion am y Comisiynydd a'r Dirprwy Gomisiynydd gan Is-bwyllgor Cwynion Panel Heddlu a Throsedd Heddlu Gogledd Cymru, a weinyddir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Mae'r trefniadau ar gyfer gwneud cwyn wedi'u hamlinellu'n glir ar wefan SCHTh (Sut i gwyno).

Rheolir cwynion yn erbyn Swyddogion Heddlu a Staff yr Heddlu gan Adran Safonau Proffesiynol yr Heddlu (sy'n adrodd i'r Dirprwy Brif Gwnstabl) yn unol hefo Polisi Ymdrin hefo Cwynion. Mae'r trefniadau ar gyfer gwneud cwyn wedi'u hamlinellu'n glir ar wefan yr Heddlu ac maent yn cydymffurfio hefo'r Rheoliadau Cwynion ac Ymddygiad newydd a gyflwynwyd ym mis Chwefror 2020. Prif nodweddion y rheoliadau newydd yw:

- Mae heddluoedd yn cael eu hannog i fod yn rhesymol a chymesur – Mae hyn yn lleihau'r angen am ymchwiliadau diangen i gwynion cyhoeddus, lleihau'r amser mae heddluoedd yn ei dreulio ar gwynion o'r fath ac yn canolbwyntio ar eu datrys er mwyn bodloni'r cyhoedd.
- Codir trothwy am gamymddygiad – Dim ond y toriadau mwyaf difrifol sy'n golygu camymddwyn, gan olygu y bydd Arfer Myfyriol yn dod yn arfer cyffredin o fewn plismona. Bydd swyddogion yn cael cymorth er mwyn adlewyrchu, datblygu a dysgu o'u camgymeriadau yn hytrach na chael eu cosbi am broblemau lefel isel.
- Canolbwyntio ar ddysgu sefydliadol – Gall y cyhoedd yn awr gwyno am y ffordd mae'r sefydliad yn gweithredu – nid ond aelod o staff. Bydd hyn yn cymell heddluoedd i ystyried a gweithredu ar gyfleoedd am ddysgu sefydliadol.
- Gwelliannau i brydlondeb – Bydd angen i heddluoedd ysgrifennu at y Comisiynydd neu at Brif Swyddog pan mae unrhyw ymchwiliad yn cymryd mwy na 12 mis i egluro'r rhesymau ac amlinellu'r hyn maent yn bwriadu ei wneud i ddod â'r ymchwiliad i ben. Bydd angen gwneud hyn am bob 6 mis wedi hynny.

Mae'r Comisiynydd yn cyfarfod hefo'r Dirprwy Brif Gwnstabl a chynrychiolwyr o'r Adran Safonau Proffesiynol yn chwarterol er mwyn craffu'r modd yr ymdrinnir hefo cwynion a honiadau am gamymddygiadau gan yr Heddlu. .

- Y Fframwaith Gallu a Gwerthoedd cenedlaethol sy'n cynnal egwyddorion y Cod Moeseg drwy amlinellu'r gwerthoedd a'r galluoedd sydd ei angen gan bawb sy'n gweithio mewn plismona. Mae'r fframwaith yn rhoi'r sylfaen i lawer o bolisïau, prosesau a gweithdrefnau AD yr Heddlu, fel recriwtio, adolygiadau cyflawniad a datblygiad proffesiynol parhaus. Ar ben hynny hefyd, mae holl recriwtiaid newydd i'r Heddlu a SCHTh yn amodol ar Fetio Recriwtio trwyadl er mwyn atal ymdreiddiad a llygredd ynghyd â recriwtio unigolion a all achosi niwed neu ddifrod i enw da'r ddau sefydliad.
- Mae Gwerthoedd yr Heddlu, a geir yng Nghynllun Strategol yr Heddlu yn seiliedig ar y Fframwaith Gallu a Gwerthoedd cenedlaethol, yn atgyfnerthu pwysigrwydd ymddwyn yn union ac arddangos ymrwymiad cryf at werthoedd moesegol. Y gwerthoedd ydy:*Impartiality* - We will be impartial, fair and understanding in all our dealings with members of the public, colleagues and partners.
- *Tegwch* – Byddwn yn deg a deallgar yn ein holl ymdriniaethau hefo aelodau o'r cyhoedd, cydweithwyr a phartneriaid.
- *Uniondeb* – Byddwn yn broffesiynol yn yr oll a wnawn, gan gynnal y gwerthoedd hyn a'r safonau ymddygiad a amlinellir yn y Cod Moeseg. Gwnawn herio a derbyn her.
- *Gwasanaeth Cyhoeddus* – Gwnawn weithredu ym muddiannau gorau ein cyhoedd, gan ddarparu gwasanaethau o safon uchel sy'n trwytho eu hyder. Gwnawn ymgysylltu, gwrando a pharchu pobl eraill.
- Tryloywder – Byddwn yn agored ac onest yn yr hyn a wnawn, yr hyn a ddywedwn a'r hyn a benderfynwn. Gwnawn yr hyn a ddywedwn yr ydym am eu gwneud.

Mae ymdriniaeth drwyadl yr Heddlu tuag at reoli polisïau, fel yr amlinellir yn y Fframwaith Safonau Dogfen Sicrwydd ac a oruchwylir gan y Bwrdd Sicrwydd, yn sicrhau fod y Cod Moeseg (ynghyd â materion eraill, fel cydraddoldeb) yn cael eu hystyried yn llawn yn ystod comisiynu a chreu polisïau newydd. Mae'r Heddlu yn adolygu ei bolisïau yn gylchol yn unol hefo Fframwaith Safonau'r Ddogfen Sicrwydd er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol, yn parhau'n addas i'r diben ac yn parhau i adlewyrchu'r Cod Moeseg. Mae unrhyw bolisïau nad oes eu hangen bellach yn cael eu digomisiynu'n unol hefo hynny. Mae holl bolisïau presennol ar gael i Swyddogion Heddlu, Staff yr Heddlu a gweithwyr SCCH drwy Llyfrgell Polisïau'r Heddlu.

Mae'r Heddlu'n creu cyfarwyddyd Angen Gwybod yn rheolaidd er mwyn codi ymwybyddiaeth o godau, polisïau a gweithdrefnau'r Heddlu ynghyd ag amlinellu ymddygiad a safonau ymddygiad dymunol sy'n ofynnol gan Swyddogion Heddlu a Staff yr Heddlu mewn sefyllfaoedd penodol.

Bydd y Model Penderfyniadau Cenedlaethol, sy'n gosod y Cod Moeseg yn y canol, wedi'i fabwysiadu gan yr Heddlu gan felly sicrhau fod egwyddorion a safonau'r Cod yn hysbysu gwneud penderfyniadau ar bob lefel o'r sefydliad. Mae'r Comisiynydd hefyd yn mabwysiadu safonau trwyadl mewn gwneud penderfyniadau.

Cymerir holl benderfyniadau ym mudd y cyhoedd yn unig yn unol hefo'r Polisi Gwneud Penderfyniadau sy'n amlinellu'r ffiniau a chymhwyso egwyddorion sy'n arwain gwneud penderfyniadau'r Comisiynydd (gweler Pennod 5 am fanylion pellach).

Mae'r Heddlu wedi sefydlu Pwyllgor Moeseg fel cydran greiddiol o'i strwythur llywodraeth er mwyn gwella ymddiriedaeth a hyder yn llywodraethu a gweithrediadau moesegol yr Heddlu a SCHTh. Mae'r Cydbwyllgor yn hyrwyddo a chynorthwyo'r safonau uchaf o ymddygiad moesegol drwy ystyried dilemâu moesegol a gyflwynir gan aelodau staff a chamau i'w hargymell i'w hystyried gan yr Heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd. Mae'r Cydbwyllgor, a gadeirir gan aelod annibynnol o'r cyhoedd, yn cynnwys 10 aelod o'r cyhoedd a 10 aelod o'r Heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd. Mae'r pwyllgor yn cyfarfod bob chwarter ac yn cyhoeddi ei ystyriaethau ac argymhellion ar fewnrwyd yr Heddlu.

4.3 Parchu Rheol y Gyfraith

Wrth gyflawni eu dyletswydd am gynnal Heddwch y Brenin, mae'r Prif Gwnstabl yn cydnabod y pwysigrwydd o sicrhau fod yr Heddlu'n gweithredu fel sefydliad sy'n gallu dangos parch i'r gyfraith. Bydd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, sy'n gyfreithiwr cymwys, yn rhoi cyngor proffesiynol i'r Heddlu ar holl faterion cyfreithiol ac yn cael eu hymgynghori ar holl benderfyniadau strategol er mwyn sicrhau nad ydy cyfreithiau'n cael eu torri. Mae Adran Safonau Proffesiynol yr Heddlu hefyd yn chwarae rôl bwysig wrth hyrwyddo safonau ymddygiad priodol a monitro cydymffurfiaeth hefo holl ddeddfwriaeth, rheoliadau a chodau perthnasol.

Prif Weithredwr y Comisiynydd ydy Swyddog Monitro y Comisiynydd gan fod yn gyfrifol am sicrhau nad ydy'r Comisiynydd a'i weithwyr yn torri unrhyw reol cyfraith neu ymgysylltu mewn unrhyw weithgarwch sy'n ffurfio camweinyddu neu anghyfiawnder.

# 5. EGWYDDOR B: SICRHAU DIDWYLLEDD AC YMGYSYLLTIAD RHANDDEILIAID CYNHWYSFAWR

5.1 Mae Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Heddlu Gogledd Cymru yn cael eu rhedeg er lles y cyhoedd. Felly, mae'n hanfodol fod y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn hyrwyddo diwylliant o ddidwylledd a thryloywder drwy gydol eu sefydliadau priodol a chynnal ffyrdd o gyfathrebu ac ymgynghori eglur ac ymddiriedol er mwyn ymgysylltu'n effeithiol hefo holl grwpiau rhanddeiliaid.

5.2 Sicrhau Didwylledd

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn gweithredu yn unol hefo Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac arweiniad a roddir gan y Comisiynydd Gwybodaeth. Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi mabwysiadu model Cynllun Cyhoeddi'r Comisiynydd

Gwybodaeth. Mae SCHTh a'r Heddlu yn sicrhau fod y wybodaeth ddiweddaraf o ran strwythur, gweithgareddau, cyllid, cynlluniau, polisïau, cyflawniad a llywodraethu'r ddau sefydliad ar gael yn agored i'r cyhoedd a rhanddeiliaid ehangach drwy'r Cynlluniau Cyhoeddi ar eu gwefannau priodol. Cyhoeddir papurau a chofnodion holl gyfarfodydd cyhoeddus (Panel Heddlu a Throsedd, Cydbwyllgor Archwilio a'r Bwrdd Gweithredol Strategol) ar wefan y Comisiynydd.

Bydd y Llawlyfr Llywodraethu (sy'n cynnwys y Cynllun Caniatâd, Rheoliadau Ariannol, a Gorchmynion Sefydlog Cytundebau) yn rhoi trefniadau priodol ar gyfer rheoli gweithgarwch ar ran y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl drwy sicrhau fod gan holl swyddogion a staff ddealltwriaeth a rennir o'u rolau, cyfrifoldebau ac awdurdod gwneud penderfyniadau o fewn y ddau sefydliad.

Mae'r Comisiynydd yn mabwysiadu safonau trwyadl wrth wneud penderfyniadau a gwneir holl benderfyniadau er budd y cyhoedd yn unig. Cyflawnir hyn drwy lynu at Polisi Gwneud Penderfyniadau sy'n amlinellu'r ffiniau a chymhwyso egwyddorion sy'n arwain gwneud penderfyniadau. Cofnodir a chyhoeddir holl benderfyniadau ar wefan y Comisiynydd er mwyn i'r cyhoedd eu craffu. Mae gan y Panel Heddlu a Throsedd rôl bwysig i'w chwarae mewn adolygu, cynorthwyo a / neu graffu'r penderfyniadau a wneir gan y Comisiynydd.

Mae'r Prif Gwnstabl hefyd yn mabwysiadu safonau trwyadl wrth wneud penderfyniadau. Gwneir yr holl benderfyniadau er budd y cyhoedd yn unig ac er mwyn cynnal Heddwch y Brenin. Mae holl benderfyniadau strategol arwyddocaol sy'n effeithio'r Heddlu (oni bai am y rhai hynny a ellir ond cael eu gwneud gan y Comisiynydd) yn cael eu gwneud gan un ai'r Bwrdd Rheoli Strategol sy'n cael ei gadeirio gan y Prif Gwnstabl. Mae gan yr Heddlu sawl bwrdd strategol arall hefyd mewn lle sy'n galluogi Prif Swyddogion i gyfarwyddo a goruchwylio gweithgarwch busnes o fewn eu meysydd cyfrifoldeb priodol. Mae gan holl fyrddau gylch gorchwyl ac aelodaeth glir sy'n gyson hefo arfer gorau.

Mae'r holl benderfyniadau allweddol a gymerir gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn cynnwys, lle bo'n berthnasol, effaith ariannol manwl, effaith cyfreithiol, effaith cydraddoldeb ac asesiad risg. Paratoir a darperir Achosion Busnes ar gyfer holl raglenni a phrosiectau mawr. Mae trefniadau mewn lle er mwyn derbyn a chofnodi cyngor proffesiynol sy'n angenrheidiol gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ar gyfer meysydd arbenigol.

## 5.3 Ymgysylltu'n Gynhwysfawr hefo Rhanddeiliaid Sefydliadol

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu cynhwysfawr hefo rhanddeiliaid a chydweithio effeithiol hefo cymunedau ac asiantaethau partner wrth ddatblygu a chyflwyno blaenoriaethau ar gyfer cyfeiriad plismona, lleihau troseddau ac anrhefn, diogelwch cymunedol, a chynorthwyo dioddefwyr yng Ngogledd Cymru.

Yn wir, mae gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth yn galluogi gwasanaethau gwell a chynaliadwy i'w cyflwyno gan holl bartneriaid a gall arwain at wasanaethau gwell yn cael eu cyflwyno'n fwy cost effeithiol. Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, felly, yn defnyddio rhwydweithiau presennol (yn enwedig yn y Trydydd Sector a'r Sector Busnes) a strwythurau a threfniadau partneriaeth ledled Gogledd Cymru lle mae'n bosibl, fel Partneriaethau

Diogelwch Cymunedol lleol. Mae hyn yn galluogi'r Comisiynydd, y Prif Gwnstabl a phartneriaid er mwyn creu ymrwymiad i'w blaenoriaethau a rennir ac ymarfer goruchwyliaeth o gyflawni canlyniadau a rennir.

Mae'r Rheoliadau Ariannol a'r Fframwaith Partneriaethau ar y Cyd a Chydweithrediad yn rhoi arweiniad ac egwyddorion eglur ar gyfer sefydlu a rheoli partneriaethau, cydweithrediadau a threfniadau gweithio ar y cyd eraill. Mae trefniadau gweithio partneriaeth sylweddol yn cael eu hategu gan drefniadau ysgrifenedig a phrotocolau cadarn sy'n dweud rolau, cyfrifoldebau a disgwyliadau bob partner.

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl hefyd yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau a chynnal ymgysylltu staff ystyrlon wrth ddatblygu a chynnal gweithlu effeithiol, effeithlon a chynhyrchiol. Yn wir, mae'r SCHTh a'r Heddlu sy'n defnyddio ystod o agweddau er mwyn sicrhau ymgysylltu staff effeithiol gan gynnwys Grwpiau Ymgynghoriad Staff, 'Fy Llais' (fforwm ar-lein sy'n rhoi llais i bawb ac yn gyfle i rannu eu safbwyntiau a rhannu eu hawgrymiadau), a chomisiynu Prifysgol Durham er mwyn ymgymryd hefo Arolwg Staff er mwyn deall effaith ffactorau'r gweithle ar weithwyr a sut mae hyn yn effeithio cyflawniad gwasanaeth i'r cyhoedd.

5.4 Ymgysylltu'n Gynhwysfawr hefo Dinasyddion Unigol a Defnyddwyr Gwasanaeth

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu effeithiol ac ystyrlon hefo dinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth wrth siapio blaenoriaethau a darparu gweithgarwch plismona Gogledd Cymru. Yn wir, mae cynnal ymgysylltiad effeithiol a pharhaus hefo pobl a chymunedau Gogledd Cymru yn cynnig ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd mewn gweithgarwch plismona ac yn gwella cyfreithlondeb y ddau sefydliad.

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi mabwysiadu Strategaethau Ymgysylltu ac Ymgynghori sydd wedi'u hanelu at greu ffyrdd o gyfathrebu ac ymgysylltu eglur hefo holl adrannau o'r gymuned. Mae'r ddau sefydliad yn defnyddio ystod eang o offerynnau cyfathrebu er mwyn cyflawni cyfathrebu agored a thryloyw hefo pobl a chymunedau ledled Gogledd Cymru, gan gynnwys cyhoeddi gwybodaeth ar eu gwefannau priodol a defnyddio cymysgedd o ffyrdd traddodiadol a modern, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, er mwyn rhoi negeseuon cywir, sicrwydd a thynnu sylw at effaith plismona ar bobl a chymunedau Gogledd Cymru.

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wrthi'n gwrando, ystyried ac yn defnyddio safbwyntiau pobl Gogledd Cymru er mwyn siapio blaenoriaethau a gwasanaethau plismona'n effeithiol.  Mae SCHTh a'r Heddlu yn defnyddio ystod eang o agweddau ymgysylltu ar gyfer cael safbwyntiau pobl Gogledd Cymru ar blismona gan sicrhau fod blaenoriaethau, pryderon a meysydd i'w gwella cymunedol yn cael eu nodi a'u trin, er enghraifft:

- Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn comisiynu Arolwg Hyder y Cyhoedd ar y cyd yn flynyddol er mwyn deall canfyddiad y cyhoedd o blismona yng Ngogledd Cymru. Mae hyn yn cynnwys cwestiynau sydd wedi'i anelu'n benodol ar nodi blaenoriaethau'r cyhoedd ar gyfer plismona. Mae'r rhain yn cysylltu'n uniongyrchol hefo'r blaenoriaethau yng Nghynllun Heddlu a Throsedd y Comisiynydd.

- Mae'r Comisiynydd wedi sefydlu Comisiwn Ieuenctid – y cyntaf o'i fath yng Nghymru – er mwyn sicrhau fod pobl ifanc 14 a 25 oed yn gallu dweud eu barn ar ystod eang o faterion o ran plismona, trosedd ac anrhefn, diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol yng Ngogledd Cymru.
- Mae'r Heddlu'n cynnal Diwrnod Agored blynyddol ym Mhencadlys yr Heddlu er mwyn rhoi'r cyfle i aelodau o'r cyhoedd i wybod mwy am waith yr Heddlu ledled Gogledd Cymru, gwylio Timau Heddlu gwahanol ar waith a siarad hefo Swyddogion Heddlu a Staff yr Heddlu o amrywiol adrannau.
- Mae'r Heddlu'n arolygu dioddefwyr troseddau yn rheolaidd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth hefo Cod Ymarfer Dioddefwyr a defnyddio'r adborth er mwyn gwella profiad dioddefwyr a'r gwasanaethau a ddarperir.
- Mae'r Comisiynydd yn ceisio safbwyntiau ar blismona, blaenoriaethau heddlu a throsedd  a'r praesept blynyddol yn rheolaidd drwy arolygon ar-lein.
- Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn mynd i gyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus yn rheolaidd er mwyn siarad yn uniongyrchol hefo cymunedau ac unigolion ledled Gogledd Cymru.
- Mae'r Heddlu hefyd yn ymgysylltu hefo cymunedau lleol yn barhaus drwy waith ei Dimau Cymdogaethau Diogelach.

Mae'r broses gwynion a'r weithdrefn ansawdd gwasanaeth yn rhoi eglurder ar y trefniadau er mwyn ymateb i ehangder pryderon a godir gan bobl leol. Os nodir tueddiadau, defnyddir y rhain er mwyn gwella gwasanaeth cwsmeriaid gan yr Heddlu a dylanwadu penderfyniadau'r Comisiynydd.

## 6. EGWYDDOR C: DIFFINIO CANLYNIADAU O RAN MANTEISION ECONOMAIDD, CYMDEITHASOL AC AMGYLCHEDDOL CYNALIADWY

6.1 Mae natur ac effaith tymor hir llawer o gyfrifoldebau'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn golygu y dylent geisio diffinio a chynlluniau canlyniadau a dylai'r rhain fod yn gynaliadwy. Dylai penderfyniadau gyfrannu at fanteision a chanlyniadau a fwriadwyd, ac maent yn parhau o fewn cyfyngiadau awdurdod ac adnoddau.  Mae mewnbwn gan holl grwpiau rhanddeiliaid, yn cynnwys dinasyddion, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid sefydliadol, yn hanfodol at lwyddiant y broses hon ac wrth bwyso a mesur galw cystadleuol wrth benderfynu blaenoriaethau ar gyfer yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael.

6.2 Diffinio Canlyniadau

Mae'r Comisiynydd wedi paratoi a chyhoeddi Cynllun Heddlu a Throsedd yn unol hefo'r dyletswyddau statudol. Mae'r cynllun yn amlinellu gweledigaeth a chyfeiriad strategol plismona a lleihau troseddau Gogledd Cymru. Mae'r cynllun hefyd yn amlinellu amcanion heddlu a throsedd y Comisiynydd ynghyd â'i flaenoriaethau a chanlyniadau ar gyfer plismona a dioddefwyr. Mae'r cynllun yn barod yn dilyn dadansoddiad helaeth o:

- Data trosedd ac anrhefn
- Ymgynghoriad â'r cyhoedd a phartneriaid ar eu blaenoriaethau a'u hanghenion
- Ymgynghoriad hefo'r Prif Gwnstabl
- Archwiliadau ac adolygiadau a ymgymerir gan gyrff allanol fel Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS)
- Risgiau a chyfleoedd strategol

Mae dangosyddion cyflawniad allweddol (yn cynnwys mesurau ar Foddhad Defnyddiwr) wedi'u gosod i gynorthwyo'r amcanion o fewn y Cynllun Heddlu a Throsedd, sy'n caniatáu'r Comisiynydd i ddwyn y Prif Gwnstabl yn atebol am gyflawniad yr Heddlu a'i effeithlonrwydd a'i effeithiolrwydd. Bydd y Bwrdd Gweithredol Strategol ydy'r fforwm ar gyfer craffu'r Prif Gwnstabl gan y Comisiynydd. Hysbysir am gyflawniad o fewn Adroddiad Blynyddol,Datganiad Cyfrifon a Taflen y Dreth Gyngor.

Mae Fframwaith Comisiynu yn cynorthwyo cyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau ehangach y Comisiynydd a'r blaenoriaethau, amcanion a'r canlyniadau a amlinellir yn y Cynllun Heddlu a Throsedd. Mae'r fframwaith yn manylu sut mae'r Comisiynydd yn gweithio hefo partneriaid, gan gynnwys grwpiau sector cymunedol a gwirfoddol, er mwyn cyflawni gweithgarwch ac ymyriadau a wnaiff gynorthwyo dioddefwyr, gwella diogelwch cymunedol, lleihau trosedd a gwella cyfiawnder troseddol. Ategir y strategaeth gan gyllideb a rhaglen gwasanaeth a gomisiynwyd.

Mae'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am osod cyfeiriad strategol yr Heddlu. Wrth ddatblygu gweledigaeth a blaenoriaethau strategol yr Heddlu, mae'r Prif Gwnstabl yn ystyried ei gyfrifoldebau statudol am gynnal Heddwch y Brenin, Cynllun Heddlu a Throsedd y Comisiynydd, Gofyniad Plismona Strategol yr Ysgrifennydd Cartref, Datganiad Rheolwyr yr Heddlu, a safbwyntiau ystod o randdeiliaid gan gynnwys y gymuned, staff a phartneriaid. Ystyrir canlyniadau cyflawniad, cudd-wybodaeth weithredol, risgiau strategol a chanlyniadau archwiliadau ac arolygon mewnol ac allanol hefyd wrth osod blaenoriaethau strategol.

Mae'r Heddlu wedi paratoi Cynllun Strategol, sy'n tynnu at ei flaenoriaethau gweithredol am y flwyddyn i ddod wrth gyflawni gweledigaeth y Prif Gwnstabl am wneud Gogledd Cymru'r lle mwyaf diogel yn y DU. Crynhoir y Cynllun Cyflawni, sydd ar gael ar wefan yr Heddlu, ar y Cynllun ar Ddalen sy'n rhoi trosolwg cryno a hawdd ei ddeall sydd wedi'i lunio er mwyn canolbwyntio gweledigaeth a blaenoriaethau Swyddogion Heddlu a Staff yr Heddlu. Bydd y Bwrdd Rheoli Strategol, a gadeirir gan y Prif Gwnstabl, yn gyfrifol am fonitro cynnydd o ran y Cynllun Cyflawni.

Mae'r Cynllun Heddlu a Throsedd a Chynllun Strategol yr Heddlu yn cael eu datblygu ar y cyd hefo Strategaeth Ariannol a Chynllun Ariannol Tymor Canolig sy'n sicrhau fod nawdd wedi'i glustnodi i'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni blaenoriaethau a chanlyniadau.

Nodir a rheolir risgiau i gyflawni'r Cynllun Heddlu a Throsedd a Chynllun Cyflawni'r Heddlu drwy Canllawiau arfer Rheoli Risgiau a Mapio Sicrwydd Yr Heddlu (gweler Pennod 9 am fanylion pellach).

6.3 Manteision Economaidd, Cymdeithasol ac Amgylcheddol Cynaliadwy

Ystyrir ystod eang o wybodaeth a safbwyntiau rhanddeiliaid wrth baratoi'r Cynllun Heddlu a Throsedd a Chynllun Strategol yr Heddlu. Mae hyn yn sicrhau y rhoddir ystyriaeth gytbwys a chynhwysfawr i bob agwedd o effaith posibl penderfyniadau polisi plismona ar y gymuned leol.

Cymerir holl benderfyniadau gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl er budd y cyhoedd. Er mwyn rheoli risg a sicrhau tryloywder budd mewn gwneud penderfyniadau, mae gofyn i weithwyr SCHTh, Swyddogion Heddlu a Staff yr Heddlu i wneud datganiadau lle mae gwrthdaro buddiannau neu wrthdaro buddiannau canfyddedig yn bodoli.

Mae'r broses am wneud penderfyniadau, yn enwedig y rhai hynny sy'n cynnwys gwariant, yn cynnwys asesiad o effaith tymor hirach cynigion er mwyn sicrhau cynaliadwyedd. Mae penderfyniadau ar gynllunio adnoddau dynol, y ffactor mwyaf sylweddol sy'n dylanwadu cyflwyno manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy, yn ystyried y rhagolwg ariannol tymor hirach ar y cyd hefo amcanestyniadau trosiant yn y dyfodol. Mae hyn yn galluogi cynllunio gweithlu a recriwtio mewn ffordd sy'n cynorthwyo rheolaeth economaidd gofynion hyfforddiant a goruchwylio ac yn mwyhau manteision i'r ddau sefydliad.

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi mabwysiadu Polisi Gwerth Cymdeithasol sy'n ymroi SCHTh a'r Heddlu er mwyn sicrhau fod materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn cael eu hystyried ym mhob cam o brosesau comisiynu a chaffael SCHTh a'r Heddlu, ac fel rhan o gost oes gyfan cytundeb. Drwy fabwysiadu'r polisi hwn, nod y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ydy:

- Creu cymuned gynaliadwy a diogelach, creu economi gryfach, lleihau'r defnydd o ynni a chreu Gogledd Cymru sy'n fywiog ac yn gyfrifol.
- Sicrhau gwell Cyfalaf Cymdeithasol (yr ewyllys da a grëir gan gysylltiadau cymdeithasol), megis dinasyddiaeth, bod yn gymdogol, rhwydweithiau cymdeithasol a chyfranogiad dinesig.

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl hefyd yn sicrhau cydymffurfiaeth hefo Deddf Cydraddoldeb 2010. Wrth wneud hyn, mae holl bolisïau, penderfyniadau, swyddogaethau ac arferion strategol yn cael eu hasesu yn erbyn dyletswyddau cyffredinol a phenodol y Ddeddf. Gwneir hyn hefo'r nod o sicrhau fod SCHTh a'r Heddlu yn gwerthuso, dogfennu a meithrin cysylltiadau da a chyfleoedd cyfartal gwell. Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl hefyd wedi gwneud trefniadau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth hefo Safonau'r Gymraeg a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg, gan sicrhau nad ydy'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

# 7. EGWYDDOR D: PENDERFYNU'R YMYRIADAU ANGENRHEIDIOL I WNEUD Y GORAU O GYFLAWNI'R CANLYNIADAU A FWRIADWYD

7.1 Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn cyflawni'r canlyniadau maent yn ei fwriadu drwy roi cymysgedd o ymyriadau cyfreithiol, rheoleiddiol ac ymarferol. Mae penderfynu'r gymysgedd iawn o'r camau gweithredu hyn yn ddewis strategol hanfodol bwysig, ac mae rhaid i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl sicrhau y cyflawnir y canlyniadau a fwriadwyd. Maent angen mecanweithiau gwneud penderfyniadau cadarn er mwyn sicrhau y gall eu canlyniadau diffiniedig gael eu cyflawni mewn ffordd sy'n rhoi'r cyfaddawd rhwng y mathau amrywiol o fewnbynnau adnodd wrth alluogi gweithrediadau effeithiol ac effeithlon. Mae penderfyniadau a wneir angen cael eu hadolygu'n barhaus er mwyn sicrhau y gwneir y gorau o gyflawni canlyniadau.

7.2 <u>Pennu Ymyriadau</u>

Mae'r Comisiynydd yn gosod cyfeiriad strategol ar gyfer plismona ac ymyriadau ehangach o fewn y Cynllun Heddlu a Throsedd a baratoir yn dilyn dadansoddiad helaeth o ystod eang o wybodaeth, gan gynnwys y blaenoriaethau ac anghenion y cyhoedd a phartneriaid. Mae'r Cynllun yn cael ei adolygu'n flynyddol er mwyn sicrhau y gwneir penderfyniadau ar weithgarwch a bod canlyniadau'n parhau'n gadarn. Mae Polisi Gwneud Penderfyniadau y Comisiynydd yn mabwysiadu cyfres o egwyddorion er mwyn sicrhau fod holl benderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn llawn gwybodaeth, fod opsiynau'n cael eu hystyried yn drwyadl ac y rhoddir gwybodaeth ar risgiau posibl.

Yr Heddlu ydy prif ddarparwr gwasanaethau plismona a derbynnydd cyfran sylweddol nawdd gan y Comisiynydd er mwyn cyflwyno'r Cynllun Heddlu a Throsedd drwy Gynllun Cyflawni'r Heddlu, sydd hefyd yn cael ei adolygu'n flynyddol. Gwneir penderfyniadau'n flynyddol ar lefel adnoddau a sut y dylent gael eu cyfarwyddo fel rhan o broses gosod cyllideb y Comisiynydd er mwyn cynorthwyo cyflwyno blaenoriaethau a chanlyniadau.

Mae'r holl benderfyniadau allweddol a gymerir gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn cynnwys, lle bo'n berthnasol, effaith ariannol manwl, effaith cyfreithiol, effaith cydraddoldeb ac asesiad risg. Paratoir a darperir Achosion Busnes ar gyfer holl raglenni a phrosiectau mawr. Mae Achosion Busnes yn amodol ar adolygiad gan y Byrddau Thematig, Byrddau Rhaglen a Byrddau Prosiect perthnasol yn yr Heddlu cyn y cyflwynir nhw i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl am benderfyniad.

Mae cyflawniad, canlyniadau a chostau'r Heddlu yn cael eu monitro drwy fframwaith sy'n cynnwys cymaryddion allanol (Proffiliau Gwerth am Arian HMICFRS), Adroddiadau Arolygon HMICFRS (e.e. Asesiadau Effeithiolrwydd, Effeithlonrwydd a Chyfreithlondeb Heddlu blynyddol), Adroddiadau Archwilio Mewnol a'r Llythyr Archwilio Blynyddol a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru. Defnyddir argymhellion sy'n codi o'r adroddiadau hyn er mwyn adolygu penderfyniadau mewn blwyddyn ar adnoddau a phenderfynu a oes angen ymyriadau er mwyn ymateb i ganfyddiadau ac argymhellion arolwg.

Mae'r Rheoliadau Ariannol a'r Gorchmynion Sefydlog yn rhoi fframwaith ar gyfer gweithgarwch comisiynu a chaffael sy'n cynorthwyo cyflawni ymyriadau gwerth gorau ac ymarferol er mwyn cynorthwyo blaenoriaethau a chanlyniadau'r Cynllun Heddlu a Throsedd a Chynllun Cyflawni'r Heddlu o fewn gwasanaethau ehangach a gomisiynwyd.

7.3 <u>Ymyriadau Cynllunio</u>

Mae'r Strategaeth Ariannol a Chynllun Ariannol Tymor Canolig yn gydran bwysig o broses cynllunio corfforaethol integredig y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Yn cynorthwyo cyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau ehangach y Comisiynydd a'r blaenoriaethau, amcanion a'r canlyniadau a amlinellir yn y Cynllun Heddlu a Throsedd.

Mae'r Strategaeth Ariannol yn amlinellu'r cyfeiriad ariannol a'i amcanion yw:

- Blaenoriaethu adnoddau er mwyn unioni cynlluniau gwario hefo gweledigaeth ac amcanion strategol y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl
- Cynnal sefyllfa cyllideb gytbwys a gosod Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cynnal a chryfhau'r sefyllfa honno
- Cyflawni gwerth am arian i dalwyr trethi lleol
- Arfer cywirdeb, pwyll a rheolaeth ariannol gref
- Darparu fframwaith cadarn i gynorthwyo'r broses gwneud penderfyniadau

- Rheoli risg, gan gynnwys cryfhau cronfeydd wrth gefn a lefelau cynaliadwy dyled
- Parhau adolygu cyllidebau er mwyn sicrhau y targedir adnoddau ar amcanion allweddol
- Mwyhau incwm a godwyd o nawdd, grantiau a gweithgarwch masnachu

Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn adolygu'r cyllidau dros y tymor canolig. Mae'n anelu darparu adnoddau er mwyn galluogi bodloni blaenoriaethau, amcanion a chanlyniadau'r Cynllun Heddlu a Throsedd a gadael i gyllid gael ei unioni hefo blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys darpariaeth i ariannu rhaglen gyfalaf wedi'i hunioni hefo cynlluniau ar gyfer TGCh, y stad a'r fflyd gan sicrhau y cydbwysir adnoddau yn y tymor canolig a thymor hirach er mwyn bodloni gofynion yr Heddlu.

Mae'r Heddlu wedi mabwysiadu Cynllunio Adnoddau Blaenoriaethol (PRP) fel un ymdriniaeth er mwyn sicrhau fod cyfran o'r adnoddau a ddyrennir gan y Comisiynydd yn cynorthwyo gweledigaeth y Prif Gwnstabl o wneud Gogledd Cymru'r lle mwyaf diogel yn y DU i fyw, gweithio ac ymweld yn y DU. Mae PRP yn galluogi'r Heddlu i adolygu, ailffocysu ac adlinio cyfran o'i adnoddau i'r meysydd o niwed mwyaf, er mwyn gwella gwasanaethau sydd bwysicaf i'r gymuned, a chreu cyfleoedd i Swyddogion heddlu a Staff yr Heddlu i gyfrannu at y broses o wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yr Heddlu'n barhaus.

Mae canlyniadau PRP yn hysbysu dyrannu cyllidebau i bob maes busnes. Mae angen i bob deiliad cyllideb reoli eu dyraniad yn unol hefo'r awdurdod a'r cyfrifoldeb ariannol a ddirprwyir iddynt gan y Prif Gwnstabl fel yr amlinellir yn y Llythyr Cyllideb a Canllaw Cyllideb.

## 7.4 Gwneud y Gorau o Gyflawni'r Canlyniadau a Fwriadwyd

Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn integreiddio'r gyllideb a'r trefniadau cyllido ar gyfer yr Heddlu hefo cyllidebau'r Comisiynydd a reolir yn uniongyrchol. Mae cyfanrwydd ffurflenni cyllid tybiedig yn ffurfio'r sail am ystyriaethau o ran y cyfnewid rhwng adnoddau ar gyfer comisiynu ac adnoddau plismona i wneud y gorau o ganlyniadau o fewn y Cynllun Heddlu a Throsedd.

Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cynnwys gwybodaeth ar setliadau ariannol cenedlaethol ar gyfer plismona a'r hyn sy'n hysbys am setliadau yn y blynyddoedd i ddod. Mae hefyd yn amlinellu'r risgiau ariannol allweddol a allai effeithio ar gyllid a gwariant yn genedlaethol ac yn lleol. Mae dadansoddiad sensitifrwydd yn rhoi gwybodaeth ar effaith posibl newidiadau i dybiaethau. Ar y cyd, mae hyn yn cynorthwyo penderfyniadau ar adnoddau, gwasanaethau, cyflawniad a chanlyniadau ac yn sicrhau fod gan y busnes ddealltwriaeth gadarn o risgiau i fforddiadwyedd cynlluniau'r dyfodol.

Mae proses y gyllideb yn seiliedig ar gynnig gan yr Heddlu.

Mae Fframwaith Comisiynu y Comisiynydd yn sicrhau bod amcanion a chanlyniadau comisiynu yn unioni hefo anghenion y gymuned leol, creu cyfleoedd i ddarparwyr arloesi a chyflawni gwerth cymdeithasol. Mae SCHTh yn rheoli a monitro tair rhaglen gyllido ar ran y Comisiynydd:

- *Cronfa'r Comisiynydd* – Nod y gronfa hon ydy cynorthwyo gweithio mewn partneriaeth er mwyn cyflawni datrysiadau i bobl Gogledd Cymru drwy ymdrin hefo problemau a nodir drwy gydol Gogledd Cymru mewn asesu troseddau ac anrhefn.
- *Cyllid Cymunedau'r Comisiynydd* – Nod y gronfa hon ydy rhoi cyllid sy'n hygyrch i gymunedau er mwyn cynorthwyo cyflawni datrysiadau cymunedol er mwyn lleihau troseddau.
- *Cyllid Comisiynu Dioddefwyr* – Nod y gronfa hon ydy cyflwyno gwasanaethau drwy Ogledd Cymru er mwyn cynorthwyo dioddefwyr trosedd.

Mae comisiynu darparwyr lleol yn sicrhau llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y gymuned ehangach.

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi mabwysiadu Polisi Gwerth Cymdeithasol sy'n ymroi SCHTh a'r Heddlu er mwyn sicrhau fod materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn cael eu hystyried ym mhob cam o brosesau comisiynu a chaffael SCHTh a'r Heddlu, ac fel rhan o gost oes gyfan cytundeb.

# 8. EGWYDDOR E: DATBLYGU GALLU'R ENDID, GAN GYNNWYS GALLU EI ARWEINYDDIAETH A'R UNIGOLION O'I FEWN

8.1 Mae'r SCHTh a'r Heddlu angen strwythurau ac arweinyddiaeth briodol, ynghyd â phobl hefo'r sgiliau iawn, cymwysterau a meddyliau priodol, er mwyn gweithredu'n effeithlon ac effeithiol a chyflawni eu canlyniadau bwriadol o fewn y cyfnodau penodol. Rhaid i'r SCHTh a'r Heddlu sicrhau fod ganddynt y gallu i gyflawni eu mandadau eu hunain a sicrhau fod polisïau mewn lle er mwyn gwarantu fod gan eu rheolwyr y gallu gweithredol ar gyfer y sefydliad i gyd. Gwnaiff yr unigolion dan sylw a'r amgylchfyd y mae SCHTh a'r Heddlu yn gweithredu ynddo newid dros amser. Bydd angen parhaus i ddatblygu eu gallu ynghyd â sgiliau a phrofiad yr arweinyddiaeth ac aelodau staff unigol. Cryfheir arweinyddiaeth yn y gwasanaeth heddlu gan gyfranogiad pobl hefo llawer o wahanol fathau o gefndir, gan adlewyrchu strwythur ac amrywiaeth cymunedau.

8.2 Datblygu Gallu'r Endid

Mae'r Uned Cynllunio Strategol yn sicrhau fod gan yr Heddlu ddealltwriaeth eglur a manwl o'r galwadau a'r galluoedd ledled y sefydliad er mwyn hysbysu cynllunio ariannol a thrawsnewid y gweithlu yn y tymor byr a thymor canolig. Mae gan yr Heddlu nifer o fyrddau

amlddisgyblaethol mewn lle sy'n ymdrin hefo trawsnewid y gweithlu, cynllunio'r gweithlu a symud y gweithlu er mwyn bodloni anghenion gweithredol a chyflawni blaenoriaethau ac amcanion strategol.

Mae gwasanaethau'r Heddlu yn amodol ar adolygiad annibynnol gan HMICFRS ac archwilio mewnol, a ddarperir gan TIAA. Bydd y Bwrdd Cynllunio Strategol a Dysgu Sefydliadol yr Heddlu yn sicrhau ymdriniaeth gydlynol at ddysgu a gwelliant parhaus sefydliadol drwy adolygu, monitro a chraffu cyflawniad yr Heddlu o ran gweithredu argymhellion a meysydd i'w gwella sy'n codi o arolygon allanol.

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn ymroddedig i fynd ar drywydd cyfleoedd i gydweithredu hefo'r Heddlu a sefydliadau eraill fel ffordd o gyflwyno mwy o wasanaethau effeithlon. Bydd y Rheoliadau Ariannol a Fframwaith Partneriaethau ar y Cyd a Chydweithrediad yn rhoi arweiniad ac egwyddorion eglur ar gyfer sefydlu a rheoli partneriaethau, cydweithrediadau a threfniadau gweithio ar y cyd eraill. Mae trefniadau gweithio partneriaeth sylweddol yn cael eu hategu gan drefniadau ysgrifenedig a phrotocolau cadarn sy'n dweud rolau, cyfrifoldebau a disgwyliadau bob partner.

8.3 Datblygu Arweinyddiaeth yr Endid

Mae swyddogaethau a rolau allweddol y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn cael eu hamlinellu yn Neddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (Deddf 2011), Gorchymyn Protocol Plismona 2011 (Gorchymyn 2011) a Chod Ymarfer Rheolaeth Ariannol (FMCP). Mae'r swyddogaethau a'r rolau hyn yn diffinio cyfrifoldebau arweinyddiaeth ac yn cael eu cyfundrefnu yn y Llawlyfr Llywodraethu, yn benodol y Cynllun Caniatâd sy'n ffurfioli'r swyddogaethau a'r dirprwyo rhwng y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl.

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi mabwysiadu Cynlluniau Dirprwyo sy'n rhoi fframwaith clir ar gyfer sicrhau fod busnes eu sefydliadau priodol yn cael ei gyflawni'n gyfreithiol, effeithlon ac yn effeithiol drwy amlinellu pwy sydd gan awdurdod o fewn SCHTh a'r Heddlu er mwyn arfer grymoedd a swyddogaethau penodol ar eu rhan. Mae'r cynlluniau hyn yn sicrhau nad ydy penderfyniadau'n cael eu hoedi'n ddiangen ac y gwneir penderfyniadau ar y lefel briodol.

Mae Deddf 2011, Gorchymyn 2011 a'r FCMP hefyd yn amlinellu prif swyddogaethau a rolau swyddogion statudol eraill, gan gynnwys:

- *Prif Weithredwr SCHTh* – Y Prif Weithredwr ydy prif ymgynghorydd y Comisiynydd. Mae prif gyfrifoldebau yn cynnwys gweithio hefo'r Comisiynydd er mwyn galluogi cyflawni o ran ei weledigaeth, strategaeth a blaenoriaethau a nodwyd, a hwyluso craffu cywir a phriodol gweithgarwch yr Heddlu. Y Prif Weithredwr hefyd ydy Swyddog Monitro statudol y Comisiynydd, gan roi cymorth i sicrhau y cyflawnir swyddogaethau'r Comisiynydd. Mae ganddynt ddyletswyddau cyfreithiol, ariannol a llywodraethu penodol yn ogystal â'r rhai hynny sy'n tarddu o gyfrifoldebau statudol. Mae'r Prif Weithredwr yn gweithredu yn unol hefo safonau proffesiynol a chyfrifoldebau deddfwriaethol ac ymddiriedol y swydd statudol.

- *Prif Swyddog Cyllid SCHTh* – Y Prif Swyddog Cyllid ydy prif ymgynghorydd ariannol y Comisiynydd. Mae ganddynt gyfrifoldeb statudol i sicrhau fod materion ariannol y Comisiynydd yn cael eu gweinyddu'n iawn. Mae'r Prif Swyddog Cyllid, felly, yn gyfrifol am oruchwylio holl refeniw a chyllidebau cyfalaf o dan reolaeth strategol y Comisiynydd, gan gynnwys cyllidebau a ddirprwyir i'r Prif Gwnstabl. Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn rhoi holl gyngor ariannol, rhoi adroddiad statudol ar gadernid y gyllideb ac mae'n sicrhau fod systemau rheolaeth ariannol fewnol yn effeithiol. Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn gweithredu yn unol hefo safonau proffesiynol a chyfrifoldebau deddfwriaethol ac ymddiriedol y swydd statudol.
- *Prif Swyddog Cyllid yr Heddlu* – Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, fel Prif Swyddog Cyllid yr Heddlu, ydy'r prif ymgynghorydd ariannol i'r Prif Gwnstabl ac mae ganddynt gyfrifoldeb statudol i sicrhau fod materion ariannol y Prif Gwnstabl yn cael eu gweinyddu'n iawn. Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, felly, yn gyfrifol am oruchwylio'r gyllideb wariant a ddirprwyir gan y Comisiynydd i'r Prif Gwnstabl. Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn rhoi holl gyngor ariannol, rhoi adroddiad statudol ar gadernid y gyllideb ac mae'n sicrhau fod systemau rheolaeth ariannol fewnol yn effeithiol.  Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau'n gweithredu yn unol hefo safonau proffesiynol a chyfrifoldebau deddfwriaethol ac ymddiriedol y swydd statudol.

Mae Deddf 2011 hefyd yn gofyn i'r Prif Gwnstabl benodi Dirprwy Brif Gwnstabl a Phrif Gwnstabl Cynorthwyol, wedi ymgynghoriad hefo'r Comisiynydd. Yng Ngogledd Cymru mae'r Dirprwy Brif Gwnstabl yn gyfrifol am reolaeth iawn a chyflawniad effeithlon swyddogaethau corfforaethol yr Heddlu fel: Cynllunio Strategol; Gwelliant Corfforaethol a Newid Busnes; Cudd-wybodaeth Busnes a Chyflawniad Sefydliadol; Proses Polisi; Rheoli Risgiau a Pharhad Busnes; Archwilio, Arolwg a Dysgu Sefydliadol; Safonau Proffesiynol; Cyfathrebiadau Corfforaethol; Cydraddoldeb ac Amrywiaeth; a Safonau a Gwasanaethau Cymraeg.

Mae gan Heddlu Gogledd Cymru ddau Brif Gwnstabl Cynorthwyol sy'n gyfrifol am reoli a chyflwyno swyddogaethau plismona gweithredol yr Heddlu yn effeithlon, fel Plismona Lleol; Ymchwilio Troseddol; Ymgyrchoedd Plismona a Chymorth Gweithredol; Gwarchod y Cyhoedd; Diogelwch Cymunedol Drylliau Tanio; Cyfiawnder Troseddol; Dalfeydd; a Gwasanaethau Dioddefwyr.

Mae un o'r Prif Gwnstabliaid Cynorthwyol yn goruchwylio Gwasanaethau Plismona Lleol yn strategol:

- CID
- Swyddogaeth batrôl
- Plismona cymdogaethau
- Diogelwch Cymunedol
- Dalfa; ac
- Atal, gan gynnwys y tîm troseddau cefn gwlad

Mae'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol hwn hefyd yn goruchwylio Gwasanaethau Trosedd:

- Uned Gwarchod Pobl Fregus
- Biwro Cudd-wybodaeth yr Heddlu
- Tîm Digwyddiadau Difrifol yr Heddlu
- Trosedd Difrifol a Threfnedig
- Cymorth gwyddonol; a
- Heddlu Arbennig

Mae'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol arall yn goruchwylio Gwasanaethau Cefnogi Gweithredol:

- Canolfan Reoli'r Heddlu
- Uniondeb Data Troseddau
- Uned Rheoli Ymateb
- Fforwm Cydnerthedd Lleol
- Cynllunio gweithredol
- Cynghrair Arfog; a'r
- Gwasanaethau Cyfiawnder.

Cynorthwyir y pum Prif Swyddog gan dîm ehangach o uwch Swyddogion Heddlu a Staff yr Heddlu, sydd hefo'i gilydd yn ffurfio Tîm Uwch Arweinyddiaeth yr Heddlu. Mae gan holl uwch Swyddogion Heddlu a Staff yr Heddlu Broffiliau Swydd clir a chywir ac yn cael eu recriwtio ar sail gwybodaeth, profiad a chymwysterau perthnasol. Mae'r Heddlu'n defnyddio rhaglenni arweinyddiaeth y Coleg Plismona er mwyn datblygu ei uwch Swyddogion Heddlu a Staff yr Heddlu.

Mae'r trefniadau sydd gan SCHTh a'r Heddlu ar gyfer gwerthusiadau staff yn rhoi'r cyfle i drafod ac adolygu cyflawniad a hyfforddiant unigol ac anghenion datblygu uwch arweinwyr ledled y ddau sefydliad.

Mae Aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio yn cael eu recriwtio am eu sgiliau a phrofiad penodol er mwyn cyflawni rôl y pwyllgor. Mae proffiliau rôl yn cynnwys manyleb unigolyn sydd angen ymgeiswyr i ddangos dealltwriaeth gadarn a phrofiad proffesiynol perthnasol. Mae gan y Cydbwyllgor Gylch Gorchwyl sy'n gyson hefo gofynion y FCMP a Chanllaw CIPFA perthnasol. Mae aelodau'r cydbwyllgor yn cael eu cynorthwyo yn eu datblygiad proffesiynol drwy ddarparu cyfarwyddyd, hyfforddiant a digwyddiadau a chyfleoedd rhwydweithio.

8.4 Datblygu Gallu Unigolion o fewn yr Endid

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn rhannu ystod o strategaethau adnoddau dynol, polisïau, cynlluniau, a gweithdrefnau sy'n rhoi fframwaith cynhwysfawr ar gyfer holl faterion sy'n berthnasol i reoli gweithwyr a thelerau ac amodau gweithwyr. Mae holl strategaethau, polisïau, cynlluniau a gweithdrefnau'n cael eu paratoi yn unol hefo deddfwriaeth cyflogaeth. Edrychir arnynt yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n addas i'r diben, adlewyrchu arfer gorau, cynorthwyo rheolwyr i gyflawni eu cyfrifoldebau rheoli adnoddau dynol, a sicrhau y trinnir gweithwyr mewn ffordd deg a thryloyw. Cymeradwyir telerau ac amodau cyflogaeth yn genedlaethol ar gyfer Swyddogion Heddlu drwy Reoliadau'r Heddlu ac yn lleol ar gyfer Staff yr Heddlu, ar y cyd hefo cynrychiolwyr gweithwyr. Gosodir graddfeydd cyflog Swyddogion Heddlu a Staff yr Heddlu yn genedlaethol.

Mae gan SCHTh a'r Heddlu strwythurau sefydliadol wedi'u diffinio'n dda hefo llinellau adrodd clir. Mae gan weithwyr SCHTh, Swyddogion Heddlu a Staff yr Heddlu Broffiliau Swydd a llinellau adrodd clir a chywir yn seiliedig ar y rolau a'r swyddogaethau maent yn atebol amdanynt, er mwyn sicrhau fod cyfrifoldebau'n glir ac y gellir eu monitro. Mae swyddi'n cael eu recriwtio ar sail Proffiliau Swydd clir a chywir, sy'n manylu sgiliau, profiad a chymwysterau hanfodol a dymunol priodol er mwyn sicrhau fod gweithwyr yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol. Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi ymroi i egwyddorion cyfleoedd cyfartal o ran recriwtio gweithwyr SCHTh, Swyddogion Heddlu a Staff yr Heddlu. Mae dyrchafiadau a phenodiadau, felly, yn cael eu hymgymryd mewn ffordd agored a thryloyw yn unol hefo holl bolisïau a gweithdrefnau adnoddau dynol perthnasol. Defnyddir ystod helaeth o dechnegau recriwtio ac ymdriniaethau cynllunio olyniaeth er mwyn sicrhau fod SCHTh a'r Heddlu'n penodi'r bobl iawn hefo'r sgiliau, profiad a'r cymwysterau iawn i'r rolau iawn o fewn y ddau sefydliad.

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi ymroi i sicrhau fod gallu gweithwyr SCHTh, Swyddogion Heddlu a Staff yr Heddlu yn cael eu datblygu i'w galluogi i weithredu'n effeithiol. Mae galluoedd, cyflawniad a gofynion datblygu gweithwyr SCHTh, Swyddogion Heddlu a Staff yr Heddlu yn cael eu hasesu'n flynyddol drwy broses Adolygiad Datblygiad Personol (ADP) cynhwysfawr. Mae'r broses ADP yn galluogi nodi a rheoli gofynion hyfforddiant a datblygu, sydd wedi'u hunioni i'r rôl neu amcanion a gweithrediadau a gytunwyd. Mae proses gosod cyllideb y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn darparu cyllidebau hyfforddiant a datblygiad i gynorthwyo gofynion hyfforddiant a datblygu gorfodol a dewisol staff ledled SCHTh a'r Heddlu.

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn cydnabod pwysigrwydd cynorthwyo iechyd a lles gweithwyr SCHTh, Swyddogion Heddlu a Staff yr Heddlu wrth gyfrannu at weithlu effeithiol. Mae holl bolisïau a gweithdrefnau rheoli adnoddau dynol yn ystyried lles gweithwyr. Mae gan weithwyr SCHTh, Swyddogion Heddlu a Staff yr Heddlu fynediad at ystod o adnoddau, gwasanaethau a chyfleoedd o ran iechyd a llesiant, fel Iechyd Galwedigaethol sy'n rhoi cyngor a chymorth i reolwyr a staff o ran materion seicolegol a ffisiotherapi penodol. Mae'r Heddlu wedi penodi Arweinydd Lles ymroddedig er mwyn cydlynu ei agwedd at hyrwyddo iechyd a lles Swyddogion Heddlu a Staff yr Heddlu yn unol hefo'r Strategaeth Iechyd a Lles.

Mae Cymdeithasau Staff yn cael eu cynrychioli ar Fyrddau a Phwyllgorau amrywiol ledled yr Heddlu sy'n sicrhau eu bod yn cael eu hymgynghori ar holl ddatblygiadau a phenderfyniadau strategol.

# 9. EGWYDDOR F: RHEOLI RISGIAU A CHYFLAWNIAD DRWY REOLI MEWNOL CADARN A RHEOLI ARIANNOL CYHOEDDUS CRYF.

9.1 Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl angen sicrhau fod yr endidau a'r strwythurau llywodraethu maent yn eu goruchwylio wedi gweithredu, ac yn gallu cynnal, system rheoli cyflawniad effeithiol sy'n hwyluso cyflawniad gwasanaethau wedi'u cynllunio effeithiol ac effeithlon. Mae rheoli risgiau, parhad busnes a rheolaeth fewnol yn rhan bwysig a hanfodol o'r system rheoli cyflawniad ac maent yn hanfodol at gyflawni canlyniadau. Maent yn cynnwys proses barhaus wedi'i llunio i nodi ac ymdrin hefo risgiau sylweddol a geir mewn cyflawni canlyniadau. Mae system gref o reolaeth ariannol yn hanfodol ar gyfer gweithredu polisïau a chyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd, gan y gwnaiff orfodi disgyblaeth ariannol, dyrannu adnoddau'n strategol, cyflawni gwasanaeth effeithlon ac atebolrwydd.

9.2 Rheoli Risgiau

Mae SCHTh a'r Heddlu wedi mabwysiadu Canllawiau arfer Rheoli Risgiau a Mapio Sicrwydd a ategir gan y deg egwyddor risg a gyhoeddir yn Arfer Proffesiynol Awdurdodedig y Coleg Plismona ar Risg ac yn adlewyrchu safonau rhyngwladol yr ISO ar reoli risgiau (ISO 31000).

Mae'r canllaw arfer yn disgrifio sut y gosodir y risg drwy gydol y SCHTh a'r Heddlu drwy ddynodi rolau a chyfrifoldebau clir am reoli risgiau ar bob lefelau a rhoi mecanweithiau am nodi, gwerthuso, sgorio, lliniaru a rheoli risgiau. Mae'r Fframwaith hefyd yn rhoi llais i chwant risgiau cyffredinol yr heddlu ynghyd â'i chwant risg ar ystod o wahanol feysydd risg, fel diogelwch a chyllid cyhoeddus. Mae chwant yr Heddlu am risg ariannol hefyd yn cael ei amlinellu yn y Strategaeth Ariannol a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Cofnodir risgiau a nodir ar Gofrestr Risgiau'r Heddlu hefo perchnogaeth eglur ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Er mwyn cynorthwyo'r broses rheoli risg, mae'r Heddlu hefyd yn defnyddio Mapio Sicrwydd fel modd o gadarnhau bod sicrwydd ar waith ar gyfer rheolaethau allweddol. Mae hefyd yn amlygu lle mae bylchau rheoli yn bodoli ac felly'n caniatáu i'r Heddlu fynd i'r afael hefo'r bylchau hynny. Mae Mapio Sicrwydd yn cael ei ddefnyddio o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Risgiau sydd wedi'u cau a'u tynnu oddi ar gofrestr risg yr Heddlu
- Risgiau a gofnodwyd ar Gofrestr Risg yr Heddlu sydd dros 12 mis oed

Mae sicrwydd yn hanfodol er mwyn sicrhau dull llywodraethu cadarn. Mae sicrwydd yn rhoi hyder a thystiolaeth a rhywfaint o sicrwydd bod dealltwriaeth yr Heddlu o unrhyw risg yn unol hefo realiti.

Mae Mapio Sicrwydd yn bwydo mewn i lywodraethu, rheoli polisi a rheoli cyflawniad. Drwy reoli risgiau tymor hir sy'n cael eu rheoli, drwy Fapio Sicrwydd, mae'n caniatáu i'r Heddlu ganolbwyntio amser ac ymdrech ar reoli risgiau deinamig yn fyw.

Mae trefniadau rheoli risg SCHTh a'r Heddlu'n amodol ar adolygiad gan y Cydbwyllgor Archwilio. Cyflwynir Cofrestr Risgiau'r Heddlu i'r Cydbwyllgor Archwilio ym mhob cyfarfod i'w adolygu, gan sicrhau tryloywder a didwylledd.

Mae Cynlluniau Parhad Busnes cynhwysfawr yn cael eu cynnal gan SCHTh a'r Heddlu ar gyfer holl feysydd gwasanaeth, sy'n anelu i sicrhau y cynhelir gweithgarwch hanfodol mewn ystod o senarios difrifol.

Mae trefniadau rheoli risgiau a pharhad busnes yr Heddlu yn cael eu cynorthwyo a'u cydlynu gan Arweinydd Risg a Pharhad Busnes.

9.3 <u>Rheoli Cyflawniad</u>

Mae llinellau eglur atebolrwydd a phrosesau mewn lle o fewn SCHTh a'r Heddlu er mwyn monitro, rheoli a chraffu cyflawni amcanion a thargedau cyflawni strategol, gweithredol a busnes, gan gynnwys:

- *Y Panel Heddlu a Throsedd* – Y Panel ydy'r corff statudol sy'n cadw cydbwysedd atebolrwydd y cyhoedd o ran cyflawniad y Comisiynydd a chraffu unrhyw benderfyniad a wneir. Mae'r Panel yn derbyn Adroddiad Blynyddol yn amlinellu'r hyn sydd wedi'i gyflawni o ran cyflawni amcanion y Cynllun Heddlu a Throsedd, ac adroddiad alldro ariannol yn cymharu gwariant presennol yn erbyn y gyllideb ac yn cynnwys datganiadau ariannol cryno.
- *Bwrdd Gweithredol Strategol* – Drwy'r Bwrdd, mae'r Comisiynydd yn craffu cyflawniad yn erbyn y Cynllun Heddlu a Throsedd, yn monitro cyflawniad yr heddlu a'r gyllideb blismona. Mae'r Bwrdd yn cael ei gadeirio gan y Comisiynydd ac mae aelodau'n cynnwys y Dirprwy Gomisiynydd, y Prif Gwnstabl, y Dirprwy Brif Gwnstabl, y Prif Gwnstabl Cynorthwyol, y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, a Phrif Weithredwr y Comisiynydd a'r Prif Swyddog Cyllid.
- *Bwrdd Rheoli Strategol* – Mae'r Bwrdd yn monitro ac adolygu cynnydd o ran Cynllun Cyflawni'r Heddlu, cyflawniad yr Heddlu o ran cyfres o ddangosyddion lleol a chenedlaethol, a gwariant o ran refeniw a chyllidebau cyfalaf. Mae'r Bwrdd yn cael ei gadeirio gan y Prif Gwnstabl ac mae aelodau'n cynnwys y Dirprwy Brif Gwnstabl, y Prif Gwnstabl Cynorthwyol, y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, Prif Uwcharolygyddion, Uwcharolygyddion a Chyfarwyddwyr Cynorthwyol (Arweinwyr Gwasanaethau).

- *Bwrdd Cyflawniad Misol yr Heddlu* – Cadeirydd y cyfarfod hwn ydy'r Dirprwy Brif Gwnstabl. Mae Prif Swyddogion, Arweinwyr Gwasanaethau, a'r Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes, yn monitro ac yn craffu ar gyflawniad o ran Cynllun Strategol yr Heddlu er mwyn sicrhau bod yr Heddlu'n cyflawni ei flaenoriaethau.
- *Bwrdd Troseddau hefo Blaenoriaeth a Galw Misol* – Cadeirydd y cyfarfod hwn ydy'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol ac mae Arweinwyr Gwasanaeth a'r Pennaeth Gwybodaeth Busnes yn mynychu. Mae'n monitro cyflawniad ac yn craffu ar gyflawniad troseddau blaenoriaeth yng Ngogledd Cymru.
- *Cyfarfodydd Cyflawniad Maes Gwasanaeth* – Mae Arweinwyr Gwasanaethau yn cynnal eu prosesau eu hunain er mwyn cynorthwyo cyflawni amcanion strategol a busnes yn unol hefo'u portffolio eu hunain.
- *Unigolion* – Mae rheolwyr yn cael gwybodaeth a chymorth i'w galluogi i gael sgyrsiau ystyrlon hefo'u staff ynghylch cyflawniad. Mae'r Heddlu'n annog rheolwyr i sicrhau fod amcanion staff, a osodir drwy'r broses ADP, wedi'u hunioni hefo gweledigaeth a blaenoriaethau'r Prif Gwnstabl.

Crëir adroddiadau hefo'r nod o roi gwybodaeth briodol i hysbysu trafodaeth a gwneud penderfyniadau, gan gynnwys effaith ariannol manwl, effaith cyfreithiol, effaith cydraddoldeb ac asesiad risg lle mae'n berthnasol.

Mae trefniadau mewn lle er mwyn derbyn a chofnodi cyngor proffesiynol sy'n angenrheidiol gan y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl ac aelodau o'r byrddau uchod ar gyfer meysydd arbenigol. Cyhoeddir papurau a chofnodion holl gyfarfodydd cyhoeddus ar wefan y Comisiynydd er mwyn sicrhau tryloywder a didwylledd.

Mae'r Heddlu'n monitro cyflawniad ar draws tair maes strategol sef:

- Ymddiriedaeth, hyder a chyfreithlondeb
- Cyflawni gwasanaeth gwych; ac
- Addas ar gyfer y dyfodol

Mae hyn yn sicrhau ymdriniaeth gytbwys i gyflawniad hefo pob maes yn rhoi sicrwydd o ran cyflawniad yn y byrddau cyflawniad rheolaidd.

Mae HMICFRS hefyd yn parhau i fonitro cyflawniad yr Heddlu yn erbyn Heddluoedd eraill drwy Arolwg cyffredinol a blynyddol Effeithiolrwydd, Effeithlonrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu (PEEL) ac arolygon thematig eraill a gytunir hefo'r Ysgrifennydd Cartref. Mae'r holl adroddiadau arolwg ar gael yn gyhoeddus gan HMICFRS drwy ei wefan ac fe'u hystyrir gan holl fyrddau perthnasol. Mae cynlluniau gweithredu'n cael eu paratoi gan yr Heddlu mewn ymateb i arolygon. Maent yn cael eu cymeradwyo a'u hadolygu gan y byrddau perthnasol yn rheolaidd, gan gynnwys y Cydbwyllgor Archwilio. Mae Bwrdd Cynllunio a Dysgu Sefydliadol Strategol yr Heddlu'n sicrhau ymdriniaeth gydlynol at ddysgu sefydliadol a gwelliant parhaus drwy adolygu, monitro, a chraffu cyflawniad yr Heddlu o ran gweithredu argymhellion a meysydd i'w gwella yn codi o'r arolygon hyn.

9.4 Rheoli Mewnol Cadarn

Mae gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl gyfrifoldeb am gynnal adolygiad o effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu corfforaethol SCHTh a'r Heddlu, gan gynnwys y system o reolaeth fewnol. Caiff y gwaith hwn ei ysbrydoli gan waith Uwch Reolwyr SCHTh a Phrif Swyddogion yr Heddlu sy'n ymgymryd hefo adolygiad cyffredinol o reolaethau allweddol a threfniadau llywodraethu er mwyn cynorthwyo'r prif egwyddorion yn y Cod hwn.

Mae trefniadau'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a gwrth-dwyll a llygredigaeth i'w hadolygu'n gylchol.

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn comisiynu Gwasanaeth Archwilio Mewnol, a ddarperir gan TIAA. Mae'r gwasanaeth hwn yn rhoi sicrwydd o ran yr amgylchfyd rheolaeth fewnol, trefniadau ar gyfer rheoli risgiau a llywodraethu SCHTh a'r Heddlu. Mae'r Cynllun Archwilio Mewnol yn cael ei ddatblygu ar sail risg yn dilyn ymgynghoriad hefo'r holl randdeiliaid perthnasol ac yn gofalu am bob maes gweithredu. Mae Pennaeth Archwilio Mewnol yn rhoi barn gyffredinol yn flynyddol am ddigonolrwydd, effeithiolrwydd a chadernid y fframwaith llywodraethu mewnol, rheoli risg a rheolaeth.

*Archwilio allanol* gan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gyfrifol am archwilio ac ardystio a ydy datganiadau ariannol y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn 'wir a theg'. Mae hefyd yn gyfrifol am asesu a ydy'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi gwneud trefniadau iawn er mwyn sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio eu hadnoddau. Mae'r Cydbwyllgor Archwilio'n derbyn copi o holl Adroddiadau Archwilio Mewnol a'r Llythyr Archwiliad Blynyddol a gyhoeddir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

*Bydd y Cydbwyllgor Archwilio* yn rhoi cyngor ac argymhellion annibynnol i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ar ddigonolrwydd eu fframweithiau llywodraethu a rheoli risg, yr amgylchfyd rheoli mewnol, ac adroddiadau ariannol. Mae felly'n cynorthwyo SCHTh a'r Heddlu er mwyn sicrhau fod trefniadau sicrwydd effeithlon ac effeithiolrwydd mewn lle. I'r perwyl hwn, mae'r Cydbwyllgor yn gallu ac mae gofyn iddo oruchwylio a darparu adolygiad annibynnol o effeithiolrwydd fframweithiau llywodraethu, rheoli risgiau a rheoli SCHTh a'r Heddlu, y broses adrodd ariannol a llywodraethu blynyddol, ac archwilio mewnol ac allanol. Mae'r Cydbwyllgor Archwilio yn gweithredu yn unol hefo Cod Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Chod Ymarfer Rheolaeth Ariannol y Swyddfa Gartref. Mae'r Cydbwyllgor Archwilio'n paratoi Adroddiad Blynyddol yn manylu'r gwaith mae wedi'i ymgymryd dros y flwyddyn. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl a'i gyhoeddi ar wefan SCHTh.

9.5 Rheoli Data

Mae'r Heddlu wedi mabwysiadu Strategaeth Rheoli Gwybodaeth er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Rheolir gwybodaeth o fewn fframwaith ar gyfer nodi, ystyried a pherchnogi gwybodaeth a risg gwybodaeth
- Rheolir gwybodaeth yn gyson ledled y sefydliad

- Rheolir gwybodaeth er mwyn cynorthwyo amcanion plismona drwy roi gwybodaeth ddibynadwy pan mae angen
- Rheolir gwybodaeth mewn cydymffurfiaeth hefo deddfwriaeth berthnasol o ran trin a defnyddio data. Er enghraifft, y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol
- Cesglir neu cedwir data un ai at 'ddibenion plismona cyfreithiol' fel y diffinnir gan God Ymarfer Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu (MOPI) (2005) neu er mwyn cynorthwyo swyddogaethau gweinyddol yn unig
- Mae Swyddogion Heddlu a Staff yr Heddlu'n defnyddio data'n gywir, ei rannu'n gyfreithiol, a'i warchod rhag perygl.

Mae'r Heddlu'n cynnal mesurau diogelwch corfforol a digidol priodol er mwyn gwarchod data rhag mynediad a chamddefnydd anawdurdodedig. Ceir Bwrdd Diogelwch Gwybodaeth, a gadeirir gan Brif Swyddog Gwybodaeth yr Heddlu, yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn goruchwylio diogelwch gwybodaeth ac ymateb i broblemau a bygythiadau sy'n dod i'r amlwg o ran rheoli a rhannu data.

Mae cywirdeb data'r heddlu yn hanfodol i gyflawni amcanion plismona a chynnal hyder y cyhoedd.  Er mwyn sicrhau fod y data'n cael ei reoli mewn modd cywir ac amserol, mae'r Heddlu'n cynnal nifer o unedau arbenigol, gan gynnwys:

- *Cofrestrydd Trosedd yr Heddlu,* a gynorthwyir gan dîm, a'u rôl ydy sicrhau y cofnodir troseddau gan gydymffurfio hefo'r Safonau Hysbysu Trosedd Cenedlaethol.
- *Y Gwasanaethau Cyfiawnder* eu rôl ydy cynorthwyo'r broses cyfiawnder troseddol a sicrhau cynnydd amserol ac effeithiol achosion troseddol drwy'r system cyfiawnder troseddol gan fodloni gofynion tystiolaeth y Llysoedd Ynadon a Llysoedd y Goron.
- *Adran y Prif Swyddog Gwybodaeth* sy'n dod â nifer o feysydd busnes hanfodol at ei gilydd o fewn yr Heddlu o ran rheoli gwybodaeth yr heddlu, fel yr Uned Diogelu Data, yr Uned Rhyddid Gwybodaeth, a'r Uned Rheoli Cofnodion.
- *Tîm Cudd-wybodaeth Busnes* sy'n sicrhau y cesglir ac yr adroddir ar ddata cyflawniad yn gyson.
- *Canolfan Gwasanaethau* sy'n rheoli data trafodol o ran Cyllid, Hyfforddiant ac AD.

Mae SCHTh hefyd yn gweithredu o fewn ffiniau deddfwriaeth a rheoliad o ran rheoli gwybodaeth a dyddiad.  Mae SCHTh yn sicrhau fod holl ddata, gan gynnwys data personol, yn cael ei gadw a'i rannu'n briodol lle bo'n berthnasol. Cedwir data yn unol hefo Atodlen Cadw SCHTh, wedi'i dynnu neu'i ddinistrio'n briodol ac mae mynediad at wybodaeth wedi'i gyfyngu lle bo'n briodol i aelodau staff perthnasol. Ni chedwir data'n hirach nag sy'n angenrheidiol. Cymerir camau diogelwch priodol ar gyfer data electronig a chorfforol. Mae holl weithwyr SCHTh yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau wrth drin a chadw data electronig a chorfforol.

Mae Protocolau Rhannu Gwybodaeth rhwng y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, a hefyd rhwng SCHTh a'r Heddlu hefo asiantaethau partner.

9.6 Rheoli Ariannol Cyhoeddus Cryf

Mae gan y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl, gweithwyr SCHTh, Swyddogion Heddlu a Staff yr Heddlu ddyletswydd glir i lynu at safonau uchaf cywirdeb wrth ymdrin hefo materion ariannol.

Mae trefniadau cadarn rheoli ariannol yn galluogi'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl i gyflawni blaenoriaethau, cyflawni canlyniadau a gwireddu cyflawniad gweithredol ac ariannol cryf drwy sicrhau y defnyddir adnoddau'n unol hefo cynlluniau cymeradwy cyflawni a buddsoddi gwasanaeth.

Mae'r trefniadau rheoli ariannol, sy'n cael eu codeiddio o fewn set o ddogfennau llywodraethu ariannol, yn amlinellu'r cydsyniadau a chyfrifoldebau ariannol ar gyfer rheoli ariannol rhwng y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Mae'r dogfennau llywodraethu ariannol, sy'n cynnwys y Llawlyfr Llywodraethu (sy'n cynnwys y Cynllun Caniatâd, Rheoliadau Ariannol, a Gorchmynion Sefydlog Cytundebau ), yn cydymffurfio hefo Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol y Swyddfa Gartref a Chodau Ymarfer CIPFA perthnasol. Mae'r dogfennau llywodraethu ariannol hefyd yn amlinellu rôl a chyfrifoldebau Uwch Reolwyr SCHTh a Phrif Swyddogion yr Heddlu ar gyfer rheoli a llywodraethu ariannol. Maent hefyd yn cynnwys holl staff i lynu at safonau rheoli ariannol ledled y sefydliad a'r fframwaith rheolaethau ehangach, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer y datganiad cyfrifon.

Mae gan SCHTh a'r Heddlu fynediad at sbectrwm llawn o wasanaethau rheoli ariannol, gan gynnwys cynllunio cyllideb, monitro cyllideb, paratoi datganiadau ariannol statudol a rheoli'r trysorlys. Mae cynrychiolaeth ariannol ym mhob bwrdd gwneud penderfyniadau perthnasol. Mae adroddiadau ac achosion busnes yn ymgorffori goblygiadau ariannol cynigion.

Mae rheoli holl gyllidebau'r Heddlu'n cael eu neilltuo i ddeiliaid cyllideb a enwir. Mae gofyn iddynt dderbyn eu cyfrifoldebau'n ffurfiol gan gynnwys unrhyw drefniadau is-ddirprwyo. Mae'r cyfrifoldebau hyn angen monitro ac adrodd gwybodaeth ariannol yn rheolaidd, gan alluogi nodi amrywiadau'n gynnar. Mae gan bob deiliad cyllideb fynediad at gymorth, cyngor ac arweiniad gan eu Rheolwr Busnes priodol a Chyfrifydd Cymorth dynodedig.

Mae risgiau a lliniaru ariannol wedi'u hamlinellu o fewn y Strategaeth Ariannol a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac yn cael eu rheoli o fewn y fframwaith cyffredinol ar gyfer rheoli risg. Mae Prif Swyddog Cyllid y Comisiynydd a Chyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau'r Prif Gwnstabl yn cymryd perchnogaeth o holl risgiau ariannol ac yn hysbysu i'r Cydbwyllgor Archwilio ar reoli risgiau ariannol strategol.

Mae trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol yn cael eu hadolygu'n gylchol gan Wasanaeth Archwilio Mewnol am sicrwydd. Maent yn ffurfio rhan o'r trefniadau a adolygir gan Swyddfa Archwilio Cymru wrth ffurfio eu casgliadau ar ddatganiadau ariannol a gwerth am arian SCHTh a'r Heddlu.

# 10. EGWYDDOR G: GWEITHREDU ARFERION DA MEWN TRYLOYWDER, ADRODD, AC ARCHWILIO ER MWYN CYFLAWNI ATEBOLRWYDD EFFEITHIOL

10.1 Mae atebolrwydd ynghylch sicrhau bod y rhai hynny sy’n gwneud penderfyniadau a chyflwyno gwasanaethau yn atebol iddynt. Mae atebolrwydd effeithiol o ran nid yn unig adrodd ar weithrediadau a gwblhawyd ond hefyd yn sicrhau fod rhanddeiliaid yn gallu deall ac ymateb wrth i’r sefydliad gynllunio a chyflawni ei weithgarwch mewn modd tryloyw. Mae archwilio allanol a mewnol yn cyfrannu at atebolrwydd effeithiol.

10.2 Gweithredu Arferion Da mewn Tryloywder

Mae’r Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl yn ymrwymedig i lywodraethu agored a thryloyw.

Mae SCHTh a’r Heddlu’n gweithredu’n unol hefo Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac arweiniad a roddir gan y Comisiynydd Gwybodaeth. Mae SCHTh a’r Heddlu wedi mabwysiadu model y Comisiynydd Gwybodaeth sef y Cynllun Cyhoeddi, ac maent yn sicrhau fod y wybodaeth ddiweddaraf o ran strwythur, gweithgarwch, cyllid, cynlluniau, polisïau, cyflawniad a llywodraethu’r ddau sefydliad ar gael yn agored i’r cyhoedd a rhanddeiliaid ehangach drwy’r Cynlluniau Cyhoeddi ar eu gwefannau priodol.

Yn yr holl gyfathrebiadau hefo’r cyhoedd, mae SCHTh a’r Heddlu yn ceisio sicrhau fod y cynnwys a’r arddull hysbysu mor glir a hawdd ei ddeall â phosibl. Defnyddir nifer o ffurfiau gwahanol o gyfryngau er mwyn cynyddu ymgysylltiad y cyhoedd, megis Facebook, Twitter ac Instagram. Mae holl ddogfennau cyhoeddus yn cael eu cyhoeddi ar wefannau SCHTh a’r Heddlu ac maent ar gael mewn fformatau hygyrch. Mae’r Comisiynydd wedi derbyn y Marc Ansawdd Tryloywder gan sefydliad ‘Comparing Police and Crime Commissioners (CoPacc) i gydnabod lefel ac ehangder yr wybodaeth sy’n cael ei chynnwys ar wefan SCHTh.

Mae trefniadau adrodd ariannol yn anelu i sicrhau hygyrchedd gwybodaeth ariannol i ddarllenwyr a defnyddwyr adroddiadau ariannol. Mae SCHTh a’r Heddlu’n cydymffurfio hefo agenda tryloywder y Llywodraeth o ran cyhoeddi manylion holl wariant dros £500.

Mae gan SCHTh a’r Heddlu drefniadau cadarn mewn lle ar gyfer ymdrin hefo ceisiadau am wybodaeth a gyflwynir o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Cheisiadau Gwrthrych am Wybodaeth o dan Ddeddf Diogelu Data 2018. Mae SCHTh a’r Heddlu hefyd yn cyhoeddi Cofnod Dadleniadau sy’n rhoi manylion holl geisiadau a dderbynnir o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a’r ymatebion a roddir.

10.3 Gweithredu Arferion Da mewn Adrodd

Mae'r Comisiynydd yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol, a greffir gan y Panel Heddlu a Throsedd, er mwyn trosglwyddo ei weithgarwch a'i gyflawniadau a rhai'r Prif Gwnstabl a'r Heddlu. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cyflwyno'r canlyniadau cyflawniad a gyflawnir yn erbyn fframwaith o dargedau a mesurau a gytunwyd.

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn paratoi a chyhoeddi Datganiad o Gyfrifon endid unigol yn unol â Chod Ymarfer CIPFA / LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdod Lleol. Mae'r Comisiynydd hefyd yn paratoi a chyhoeddi Datganiad Gr p Cyfrifon Yn unol hefo'r un Cod Ymarfer.

Mae cydymffurfio hefo'r Cod Ymarfer yn sicrhau cymaroldeb gwybodaeth ariannol o fewn y cyfrifon hefo endidau tebyg eraill a'u cyhoeddi yn unol hefo amserlenni statudol. Mae'r Datganiadau Cyfrifon yn cynnwys datganiadau incwm a gwariant cynhwysfawr, sydd wedi'u hunioni at adrodd a monitro ariannol mewn blwyddyn. Mae Prif Swyddog Cyllid y Comisiynydd a Chyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau'r Prif Gwnstabl yn cymryd perchnogaeth o holl risgiau ariannol ac yn hysbysu i'r Cydbwyllgor Archwilio ar reoli risgiau ariannol strategol. Mae'r Datganiadau Cyfrifon yn cynnwys Adroddiad Annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n amlinellu barn gyffredinol a chasgliadau'r archwilydd allanol ar werth am arian yn unol hefo Deddf Archwiliad Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn adolygu eu trefniadau cyffredinol ar gyfer llywodraethu'n flynyddol yn erbyn y Cod Llywodraethu Corfforaethol hwn. Mae canlyniadau eu hadolygiad yn cael eu hamlinellu mewn Datganiad Llywodraethu Blynyddol, a gyhoeddir hefo'u Datganiadau Cyfrifon. Mae'r Datganiad yn cynnwys Cynllun Gweithredu yn amlinellu'r gwaith a ymgymerir dros y flwyddyn i ddod gan SCHTh a'r Heddlu er mwyn cynorthwyo gwelliant parhaus yn unol hefo egwyddorion y Cod hwn a CIPFA / SOLACE CIPFA. Fframwaith Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol.

Mae'r Datganiadau Cyfrifon a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael eu hadolygu gan y Cydbwyllgor Archwilio.

10.4 Sicrwydd ac Atebolrwydd Effeithiol

Darperir archwilio allanol gan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae Swyddfa Archwilio Cymru'n gyfrifol am:

- Archwilio ac ardystio a ydy datganiadau ariannol y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn 'wir a theg'
- Asesu a ydy'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi gwneud trefniadau iawn er mwyn sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio eu hadnoddau

Cyhoeddir barn gyffredinol a chasgliadau'r archwilydd allanol ar werth am arian yn Natganiadau Cyfrifon y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl a chânt eu hadolygu gan y Cydbwyllgor Archwilio.

Rhoddir atebolrwydd pellach drwy'r trefniadau ar gyfer archwilio mewnol. Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn comisiynu Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar y cyd, a ddarperir gan TIAA. Darperir y gwasanaeth yn unol hefo Siarter Archwilio Mewnol sy'n sicrhau cydymffurfiaeth hefo Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Mae'r gwasanaeth hwn yn rhoi sicrwydd o ran yr amgylchfyd rheolaeth fewnol, trefniadau ar gyfer rheoli risgiau a llywodraethu SCHTh a'r Heddlu. Mae'r Cynllun Archwilio Mewnol yn cael ei ddatblygu ar sail risg yn dilyn ymgynghoriad hefo'r holl randdeiliaid perthnasol ac yn gofalu am bob maes gweithredu. Mae Pennaeth Archwilio Mewnol yn rhoi barn gyffredinol yn flynyddol am ddigonolrwydd, effeithiolrwydd a chadernid y fframwaith llywodraethu mewnol, rheoli risg a rheolaeth. Mae'r Cydbwyllgor Archwilio yn adolygu'r Cynllun Archwilio Mewnol blynyddol, yn ystyried barn flynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol, ystyried crynodebau adroddiadau archwilio mewnol, ac yn monitro gweithredu argymhellion archwiliad.

Mae pedwar Comisiynydd a Phrif Gwnstabl Cymru hefyd yn comisiynu TIAA ar y cyd i ymgymryd hefo Adolygiadau Cydweithredol ar feysydd o fudd cyffredin a gweithio mewn partneriaeth rhwng a ledled y pedwar Heddlu. Mae'r adolygiadau hyn yn rhoi lefel sicrwydd pellach ynghyd â chyfleoedd gwerthfawr er mwyn rhannu dysgu ac arfer gorau

Mae'r trefniadau ar gyfer atebolrwydd yn ymgorffori asesiadau ac adroddiadau gan HMICFRS ymhellach. Mae'r holl heddluoedd yn amodol ar asesiad cyffredinol blynyddol o'u heffeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb (PEEL) gan HMICFRS. Mae HMICFRS hefyd yn ymgymryd hefo adolygiadau thematig a chyda rhaglen arolygu dreiglol (e.e. dalfa). Mae cynlluniau gweithredu'n cael eu paratoi gan yr Heddlu er mwyn sicrhau gwelliannau yn dilyn argymhellion HMICFRS. Mae'r cynlluniau'n cael eu cymeradwyo a'u hadolygu gan y cyfarfodydd llywodraethu perthnasol yn rheolaidd, gan gynnwys y Cydbwyllgor Archwilio. Mae Bwrdd Cynllunio Strategol a Dysgu Sefydliadol yr Heddlu yn sicrhau ymdriniaeth gydlynol at ddysgu a gwelliant parhaus sefydliadol drwy adolygu, monitro a chraffu cyflawniad yr Heddlu o ran gweithredu argymhellion a meysydd i'w gwella sy'n codi o arolygon allanol.

# 11. ADOLYGIAD BLYNYDDOL

11.1 Adolygir y Cod hwn yn flynyddol gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl fel rhan o adolygiad ehangach o'u trefniadau llywodraeth sy'n hysbysu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

11.2 Bydd y Cod hwn, felly, yn cael ei ddiweddaru er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau a gyflwynwyd i drefniadau llywodraethu SCHTh a'r Heddlu yn sgil yr adolygiad blynyddol.

## ATODIAD A

| Dogfennau Strategol Cyffredinol | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Enw'r Ddogfen:** | **Egwyddor A** Ymddwyn hefo uniondeb | **Egwyddor B** Sicrhau Didwylledd | **Egwyddor C** Diffinio Canlyniadau | **Egwyddor D** Penderfynu'r Ymyriadau | **Egwyddor E** Datblygu Gallu'r Endid | **Egwyddor F** Rheoli Risg a Chyflawniad | **Egwyddor G** Gweithredu Arferion Da |
| **Dogfennau** | | | | | | | **Strategol** |
| Cynllun Heddlu a Throsedd | | ✓ | ✓ | | ✓ | | |
| Chynllun Strategol yr Heddlu | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | |
| **Dogfennau Strategol – Llywodraethu a Sicrwydd** | | | | | | | |
| Llawlyfr Llywodraethu: | | | | | | | |
| Cod Llywodraethu Corfforaethol Cynllun | ✓ | ✓ | | | ✓ | | ✓ |
| Cydsyniad | | | | | ✓ | ✓ | |
| Rheoliadau Ariannol | ✓ | | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gorchymyn Sefydlog ar gyfer Contractau | | ✓ | | | | | |
| Canllawiau Arfer Rheoli Risgiau a Mapio Sicrwydd | ✓ | | | ✓ | | ✓ | |
| Cynllun Dirprwyo'r Prif Gwnstabl | | | | | ✓ | ✓ | |
| **Dogfennau Strategol – Cyllid a Chyflawniad** | | | | | | | |
| | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| Adroddiad Blynyddol y CHTh | | ✓ | ✓ | | | | |
| Datganiadau Ariannol / Cyfrifon Grŵp y CHTh | | ✓ | | | | | ✓ |
| Datganiadau Ariannol Blynyddol y PG | | ✓ | | | | | ✓ |
| Datganiad Llywodraethu Blynyddol y CHTh | | ✓ | | | ✓ | | ✓ |
| Datganiad Llywodraethu Blynyddol y PG | | ✓ | | | ✓ | | ✓ |

| **Dogfennau Strategol Cyffredinol *(Parhad)*** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Enw'r Ddogfen:** | **Egwyddor A** Ymddwyn hefo uniondeb | **Egwyddor B** Sicrhau Didwylledd | **Egwyddor C** Diffinio Canlyniadau | **Egwyddor D** Penderfynu'r Ymyriadau | **Egwyddor E** Datblygu Gallu'r Endid | **Egwyddor F** Rheoli Risg a Chyflawniad | **Egwyddor G** Gweithredu Arferion Da |
| **Dogfennau Strategol Eraill** | | | | | | | |
| | ✓ | | ✓ | | | | |
| Strategaeth Atal Trosedd | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Strategaeth Ddigidol | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Ymgysylltu | | ✓ | | ✓ | ✓ | | |
| Strategaethau Stad | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Strategaeth Fflyd | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Datganiad Rheoli'r Heddlu | | ✓ | | | | ✓ | |
| Protocol Rhannu Gwybodaeth | | | | | ✓ | ✓ | |
| Strategaeth Dechnoleg | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Cynllun Cymraeg ar y Cyd 2018 | | | ✓ | | ✓ | | ✓ |
| Polisi Gwerth Cymdeithasol 2017 | | | ✓ | | ✓ | | ✓ |
| Asesiad Strategol | | ✓ | | | | ✓ | |
| Strategaeth Cyfathrebiadau Corfforaethol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| STRATEGAETH POBL | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cynrychiolaeth Gweithlu Heddlu Gogledd Cymru | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Strategaeth Data a Dadansoddeg | ✓ | | ✓ | | ✓ | ✓ | |
| Strategaeth Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Chynhwysiant ar y Cyd. | ✓ | | ✓ | | | | ✓ |
| Strategaeth Bregusrwydd | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Strategaeth Troseddau Difrifol a Threfnedig | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Strategaeth Trais Difrifol | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Strategaeth Rheoli Caffael a Chytundebau | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ |
| Strategaeth Rheoli Data | ✓ | ✓ | | | | ✓ | ✓ |
| Strategaeth Rheoli Asedau | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ |
| Strategaeth Cynaliadwyedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ |
| Strategaeth Troseddau Cefn Gwlad | | | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Strategaeth Plismona Cymdogaethau | | | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Strategaeth Rheoli Cyswllt yr Heddlu | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Strategaeth Plismona Ffyrdd | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

| Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd – Polisïau, Gweithdrefnau, Canllawiau, Fframweithiau | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Polisi/ Gweithdrefn/ Canllaw/ Fframwaith** | **Egwyddor A** Ymddwyn hefo uniondeb | **Egwyddor B** Sicrhau Didwylledd | **Egwyddor C** Diffinio Canlyniadau | **Egwyddor D** Penderfynu'r Ymyriadau | **Egwyddor E** Datblygu Gallu'r Endid | **Egwyddor F** Rheoli Risg a Chyflawniad | **Egwyddor G** Gweithredu Arferion Da |
| Polisi Gwrth-Dwyll a Llygredigaeth | ✓ | | | | | ✓ | |
| Cod Ymddygiad – CHTh a'r DGHTh | ✓ | | | | | | |
| Cod Ymddygiad – Staff SCHTh | ✓ | | | | | | |
| Fframwaith Comisiynu 2017 | | | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| Polisi Gohebiaeth | | | | | | | ✓ |
| Polisi Penderfyniadau | ✓ | | | | | | ✓ |
| Polisi Digidol a Chyfryngau Cymdeithasol | | | | | | | ✓ |
| Gweithdrefn Rhyddid Gwybodaeth | | | | ✓ | | | ✓ |
| Polisi Preifatrwydd | | | | ✓ | | | |
| Polisi Rheoli Cofnodion | | ✓ | | | | | |
| Polisi Cadw a Dinistrio | | | | | | | ✓ |
| Canllaw Arfer Llety a Pherchentyaeth | | | | | | | ✓ |
| Polisi Gweithio Ystwyth | | | | | | | ✓ |
| Polisi Airwave | ✓ | | | | | | ✓ |
| Canllaw Arfer ANPR | | | | | | | ✓ |
| Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol | | | | ✓ | | | ✓ |
| Canllaw Ymarfer Wrth Gefn y Lluoedd Arfog | | | | | | | ✓ |
| Canllaw Ymarfer Sicrwydd Asesiad ac Ansawdd Mewnol | | | | | | | ✓ |
| Polisi Rheoli Presenoldeb | | | ✓ | | | ✓ | ✓ |
| Polisi Camerâu corff | | ✓ | | ✓ | | | ✓ |
| Canllawiau Arfer Cynllun Bwrsariaeth | | | | | | | ✓ |
| Maes Busnes/Adran Canllaw Ymarfer Parhad | | | | ✓ | ✓ | ✓ | |
| CADRE (Arian) Canllaw Ymarfer | | | | | ✓ | | ✓ |
| Polisi CCC | ✓ | | | | | ✓ | ✓ |
| Gweithdrefn Weithredu Safonol yr Uned Atgyfeirio Ganolog | | | | | | | ✓ |
| Polisi Data Cyfathrebiadau | ✓ | | | | | | ✓ |
| Polisi Ymdrin hefo Cwynion | ✓ | | | | | | |
| Canllaw Ymarfer Cynllun wrth Gefn | | | | | | | ✓ |
| Polisi Atal Llygredigaeth | ✓ | ✓ | | | | | ✓ |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Polisi Cerdyn Credyd | ✓ | | | | | | ✓ |
| Canllaw Ymarfer Rheoli Trosedd | | | | | | ✓ | ✓ |
| Canllaw Ymarfer Cofnodi Troseddau | ✓ | | | ✓ | | | ✓ |
| Canllaw Ymarfer y Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol | | | | | | | ✓ |
| **Heddlu Gogledd Cymru – Polisïau, Gweithdrefnau, Canllawiau, Fframweithiau'r Heddlu *(Parhad)*✓** | | | | | | | |
| **Polisi/ Gweithdrefn/ Canllaw/ Fframwaith** | **Egwyddor A** Ymddwyn hefo uniondeb | **Egwyddor B** Sicrhau Didwylledd | **Egwyddor C** Diffinio Canlyniadau | **Egwyddor D** Penderfynu'r Ymyriadau | **Egwyddor E** Datblygu Gallu'r Endid | **Egwyddor F** Rheoli Risg a Chyflawniad | **Egwyddor G** Gweithredu Arferion Da |
| Polisi'r Ddalfa | | | | | | ✓ | ✓ |
| Polisi Cynllun Olyniaeth y Ddalfa | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Polisi Cŵn Peryglus | | | | | | | ✓ |
| Canllaw Ymarfer Offer Amddiffynnol | | | | | | ✓ | ✓ |
| Canllaw Ymarfer CADRE Ditectif Arolygyddion | | | | | ✓ | | |
| Canllaw Ymarfer Cam-drin Domestig | | | | ✓ | | | ✓ |
| Polisi Dyletswyddau a Gwyliau Swyddogion Heddlu | | | | | ✓ | | ✓ |
| Polisi Treuliau a Lwfansau | ✓ | ✓ | ✓ | | | | ✓ |
| Canllaw Ymarfer Ardystio a Thrwyddedu Ffrwydron | | | | | | ✓ | ✓ |
| Polisi Teulu Plismona Estynedig | ✓ | | | | ✓ | | ✓ |
| Canllaw Ymarfer Cyswllt Teuluol | | | | | ✓ | | ✓ |
| Protocol Digwyddiadau Angheuol | | | | | | ✓ | ✓ |
| Polisi Asesu Ffitrwydd | | | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Polisi Gweithio'n Hyblyg | | | | | ✓ | | ✓ |
| Fframwaith Sicrwydd Safonau Dogfennau yr Heddlu | | | | | | | ✓ |
| Polisi Canolfan Cyfathrebiadau'r Heddlu | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Fframwaith Llywodraethu'r Heddlu | ✓ | | | | | | ✓ |
| Polisi Safonau Gwybodaeth yr Heddlu | ✓ | | | | | ✓ | |
| Canllaw Ymarfer Dinasyddion Dramor | | | | | | | ✓ |
| Fframwaith Creu Strategaethau'r Heddlu | | | | | | | ✓ |
| Polisi Twyll | | | | | | | ✓ |
| Polisi Cwynion | | | | | | | ✓ |
| Canllaw Ymarfer Swyddi Anodd i'w Llenwi | | | | | ✓ | | ✓ |
| Canllaw Ymarfer Gweithredol Trosedd Casineb | | | | | | | ✓ |
| Polisi Iechyd a Diogelwch | | | | | | ✓ | |
| Polisi ICAD | | | | | | | ✓ |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweithdrefn Gweithredu Safonol y Ganolfan Ddata | | | | | | | ✓ |
| Canllawiau ar Ymdrin hefo DVD Cyfweld | | | | | | | ✓ |
| Dysgu Canllawiau Arfer Stelcian ac Aflonyddu | | | | | ✓ | | ✓ |
| Polisi Rheoli Cyflawniad a Datblygiad Swyddogion yn y Cyfnod Prawf | | | | | | | ✓ |
| Canllawiau Arfer Unigolion Coll | | | | | | | ✓ |
| **Heddlu Gogledd Cymru – Polisïau, Gweithdrefnau, Canllawiau, Fframweithiau'r Heddlu *(Parhad)*✓** | | | | | | | |
| **Polisi/ Gweithdrefn/ Canllaw/ Fframwaith** | **Egwyddor A** Ymddwyn hefo uniondeb | **Egwyddor B** Sicrhau Didwylledd | **Egwyddor C** Diffinio Canlyniadau | **Egwyddor D** Penderfynu'r Ymyriadau | **Egwyddor E** Datblygu Gallu'r Endid | **Egwyddor F** Rheoli Risg a Chyflawniad | **Egwyddor G** Gweithredu Arferion Da |
| Canllaw Ymarfer Pandemig | | | | | | | ✓ |
| Polisi Mater Personol Cerbydau a Lwfans Defnyddwyr Hanfodol | | | | | | | ✓ |
| Polisi Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNC) | | | | | | | ✓ |
| Polisi Defnydd yr Heddlu o Gerbydau a Rheoli Risg Ffyrdd | | | | | | ✓ | ✓ |
| Canllaw Ymarfer Plismona Digwyddiadau | | ✓ | | | | | ✓ |
| Cyfarwyddiadau Arfer Plismona Lleoliadau Rhyw Cyhoeddus | | | | | | | ✓ |
| Canllaw Ymarfer Swyddi o dan Gyfyngiadau Gwleidyddol | ✓ | | | | | | ✓ |
| Canllaw Ymarfer Cyfweliadau ar ôl Dedfrydu | ✓ | | | ✓ | | | |
| Polisi Cyn-etholiad | ✓ | | | | | | ✓ |
| Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaeth Annisgwyl mewn Plant (PRUDIC) | ✓ | | ✓ | | | | ✓ |
| Proffesiynoli Polisi'r Rhaglen Ymchwiliol | ✓ | | | | ✓ | | |
| Gweithdrefn Weithredu Safonol Rheoli Eiddo ac Arddangosyddion | ✓ | | | | | ✓ | ✓ |
| Polisi Prynu | ✓ | | | | | | ✓ |
| Polisi Recriwtio | | | | | ✓ | | ✓ |
| Canllaw Ymarfer Cyfeiriadau | | | | | | | ✓ |
| Polisi Gwobrwyo, Cydnabod ac Ymgysylltu | | | | | | | ✓ |
| Gwobrau am Bolisi Gwybodaeth | | | | | | | ✓ |
| Canllaw Ymarfer y Cynllun Reidio | | ✓ | | | | ✓ | ✓ |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Polisi Ffôn Symudol | ✓ | | | | | | ✓ |
| Adran 135 / 136 Protocol Deddf Iechyd Meddwl 1983 | ✓ | ✓ | | | | ✓ | ✓ |
| Canllaw Ymarfer Chwaraeon | | | | | | | ✓ |

| **Heddlu Gogledd Cymru – Polisïau, Gweithdrefnau, Canllawiau, Fframweithiau'r Heddlu *(Parhad)*** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Polisi/ Gweithdrefn/ Canllaw/ Fframwaith** | **Egwyddor A** Ymddwyn hefo uniondeb | **Egwyddor B** Sicrhau Didwylledd | **Egwyddor C** Diffinio Canlyniadau | **Egwyddor D** Penderfynu'r Ymyriadau | **Egwyddor E** Datblygu Gallu'r Endid | **Egwyddor F** Rheoli Risg a Chyflawniad | **Egwyddor G** Gweithredu Arferion Da |
| Canllawiau Arfer Stelcian ac Aflonyddu | ✓ | | | | | | ✓ |
| Polisi Marwolaethau Sydyn, Anesboniadwy ac Amheus | | | | | | | ✓ |
| Canllaw Ymarfer Gwyliadwriaeth | ✓ | | | ✓ | | | |
| Defnyddio Canllaw Ymarfer Zoom | | | | | | | ✓ |
| Polisi Mynychwyr Gwirfoddol | | | | | | ✓ | ✓ |
| Polisi Sgiliau Cymraeg | | | | | ✓ | | ✓ |
| Polisi Gweithio hefo Anabledd | | | | | ✓ | | ✓ |
| Canllaw Ymarfer Tawelu ac Ôl-drafod Digwyddiadau Difrifol | | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Canllawiau Dros Dro am Wasanaeth Hir ac Ymddygiad Da | ✓ | ✓ | | | | ✓ | ✓ |
| Gweithdrefn Weithredu Safonol Adnabod Wynebau Byw | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ |
| Canllaw Ymarfer Therapi Amnewid Nicotin yn y Ddalfa | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ |
| Gweithdrefn Weithredu Safonol Awdiometreg yr Uned Iechyd Galwedigaethol | | | | | ✓ | | ✓ |
| Gweithdrefn Weithredu Safonol Rheoli Achosion yr Uned Iechyd Galwedigaethol | | | | | ✓ | | ✓ |
| Gweithdrefn Weithredu Safonol Archwiliad Clinigol yr Uned Iechyd Galwedigaethol | | | | | ✓ | | ✓ |
| Gweithdrefn Weithredu Safonol Cwynion yr Uned Iechyd Galwedigaethol | | | | | ✓ | | ✓ |
| Gweithdrefn Weithredu Safonol Dyfrhau Clustiau'r Uned Iechyd | | | | | ✓ | | ✓ |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Galwedigaethol | | | | | | | |
| Gweithdrefn Weithredu Safonol Syndrom Dirgryniadau Dwylo a Breichiau'r Uned Iechyd Galwedigaethol | | | | | ✓ | | ✓ |
| Gweithdrefn Weithredu Safonol Gwaedu a Brechiadau'r Uned Iechyd Galwedigaethol | | | | | ✓ | | ✓ |
| Gweithdrefn Weithredu Safonol Seicolegol yr Uned Iechyd Galwedigaethol | | | | | ✓ | | ✓ |
| Canllaw Ymarfer Dychwelyd i'r Gwaith ar gyfer Rheolwyr yr Uned Iechyd Galwedigaethol | | | | | ✓ | | ✓ |
| Gweithdrefn Weithredu Safonol yr Asesiad Meddygol ar Sail Risg yr Uned Iechyd Galwedigaethol | | | | | ✓ | | ✓ |
| Gweithdrefn Weithredu Safonol Diogelu'r Uned Iechyd Galwedigaethol | | | | | ✓ | | ✓ |
| Gweithdrefn Weithredu Safonol Gwyliadwriaeth Croen yr Uned Iechyd Galwedigaethol | | | | | ✓ | | ✓ |
| **Heddlu Gogledd Cymru – Polisïau, Gweithdrefnau, Canllawiau, Fframweithiau'r Heddlu *(Parhad)*✓** | | | | | | | |
| **Polisi/ Gweithdrefn/ Canllaw/ Fframwaith** | **Egwyddor A** Ymddwyn hefo uniondeb | **Egwyddor B** Sicrhau Didwylledd | **Egwyddor C** Diffinio Canlyniadau | **Egwyddor D** Penderfynu'r Ymyriadau | **Egwyddor E** Datblygu Gallu'r Endid | **Egwyddor F** Rheoli Risg a Chyflawniad | **Egwyddor G** Gweithredu Arferion Da Arferion |
| Gweithdrefn Weithredu Safonol Profi Dwr yr Uned Iechyd Galwedigaethol | | | | | ✓ | | ✓ |
| Gweithdrefn Weithredu Safonol Profi Wrin ar gyfer Cyffuriau'r Uned Iechyd Galwedigaethol | | | | | ✓ | | ✓ |
| Gweithdrefn Weithredu Safonol Archebu, Storio, Trin a Gwaredu Brechiadau'r Uned Iechyd Galwedigaethol | | | | | ✓ | | ✓ |
| Gweithdrefn Weithredu Safonol Sgrinio yr Uned Iechyd Galwedigaethol | | | | | ✓ | | ✓ |
| Canllaw Ymarfer Rheoli Cyflawniad | ✓ | | ✓ | | | ✓ | ✓ |
| Canllaw Ymarfer Ffwythiant Chwilio Wynebau PND | ✓ | ✓ | | | | ✓ | ✓ |
| Canllaw Ymarfer Darparu, Cynnal a Defnyddio Diffibrilwyr | | | | | | ✓ | ✓ |
| Canllaw Ymarfer Arolygon | | | | | | ✓ | ✓ |
| Polisi Apeliadau | ✓ | ✓ | | | | | ✓ |
| Polisi Feirws Gwaed | | | | | | ✓ | ✓ |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Polisi Adnabod Wynebau Byw | ✓ | ✓ | ✓ | | | | ✓ |
| Polisi Ffôn Symudol | ✓ | | ✓ | | | ✓ | ✓ |
| Polisi Iechyd Galwedigaethol | | | | | ✓ | | ✓ |
| Polisi Caniatâd a Chyfrinachedd yr Uned Iechyd Galwedigaethol | ✓ | | | | ✓ | | ✓ |
| Polisi Rheoli Cofnodion yr Uned Iechyd Galwedigaethol | ✓ | | | | ✓ | | ✓ |
| Polisi Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial | ✓ | ✓ | ✓ | | | | ✓ |
| Polisi Camymddwyn Staff yr Heddlu | ✓ | ✓ | | | | ✓ | ✓ |
| Polisi Aflonyddu Rhywiol | ✓ | ✓ | | | | ✓ | ✓ |

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME
COMMISSIONER NORTH WALES

HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE

# COD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL